# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 2 Hydref 2023

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 - 13.35)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**2.1 SL(6)383 - Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 1 - 3)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-26-23 - Papur 1 - Adroddiad drafft

**2.2 SL(6)384 - Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 4 - 5)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-26-23 - Papur 2 - Adroddiad drafft

**2.3 SL(6)385 - Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 6 - 7)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-26-23 – Papur 3 – Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**2.4 SL(6)382 – Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 8 – 14)

Rheolau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-26-23 – Papur 4 – Adroddiad drafft

**Offerynnau Cadarnhaol Cyfansawdd Drafft**

**2.5 SL(6)386 – Gorchymyn y Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2023**

(Tudalennau 15 – 16)

Rheolau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-26-23 – Papur 5 – Adroddiad drafft

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

(13.35 – 13.40)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)379 – Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) (Diwygio) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 17 – 19)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-26-23 – Papur 6 – Adroddiad

LJC(6)-26-23 – Papur 7 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**3.2 SL(6)380 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 20 – 37)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-26-23 – Papur 8 – Adroddiad

LJC(6)-26-23 – Papur 9 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**3.3 SL(6)381 – Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 38 – 43)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-26-23 – Papur 10 – Adroddiad

LJC(6)-26-23 – Papur 11 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.40 – 13.45)

**4.1 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo**

(Tudalennau 44 – 47)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-26-23 – Papur 12 – Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 25 Medi 2023

LJC(6)-26-23 – Papur 13 – Datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 25 Medi 2023

**4.2 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach**

(Tudalennau 48 – 49)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-26-23 – Papur 14 – Llythyr gan Weinidog yr Economi, 25 Medi 2023

LJC(6)-26-23 – Papur 15 – Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi, 25 Medi 2023

**4.3 Gohebiaeth â'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau i weithredu Fframwaith Windsor**

(Tudalennau 50 - 55)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-26-23 – Papur 16 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 25 Medi 2023

LJC(6)-26-23 – Papur 17 – Llythyr i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 18 Medi 2023

**4.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid**

(Tudalennau 56 - 57)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-26-23 – Papur 18 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 27 Medi 2023

**4.5 Gohebiaeth â'r Gweinidog Newid Hinsawdd: Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr Fflworedig (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 58 - 64)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-26-23 – Papur 19 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 27 Medi 2023

LJC(6)-26-23 – Papur 20 – Llythyr i'r Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Medi 2023

**4.6 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Hysbysiad Blaenorol) a Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 65 - 67)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-26-23 – Papur 21 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 28 Medi 2023

## 5 Papurau i'w nodi

(13.45 - 13.50)

### 5.1 Gohebiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg: Defnyddio'r Gymraeg

(Tudalen 68)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-26-23 - Papur 22 - Llythyr gan Gomisiynydd y Gymraeg, 15 Medi 2023

### 5.2 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyllideb Ddrafft 2024-25

(Tudalennau 69 - 70)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-26-23 - Papur 23 - Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 25 Medi 2023

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(13.50)

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

(13.50 - 14.10) (Tudalennau 71 - 89)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-26-23 - Papur 24 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 8 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

(14.10 - 14.20)

# SL(6)383 – Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2023

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2023 ("y Rheoliadau hyn") yn ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") at y diffiniad o "awdurdod perthnasol" yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001").

Mae cyd-bwyllgorau corfforedig yn gyrff corfforedig sy'n cynnwys y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol hynny pennau bennir yn y rheoliadau sefydlu. O dan rai amgylchiadau, mae awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn aelodau o gyd-bwyllgor corfforedig hefyd; pan fo hyn yn wir, fe'i nodir yn rheoliadau sefydlu'r cyd-bwyllgor corfforedig perthnasol.

Mae ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig at y diffiniad o "awdurdod perthnasol" yn Rheoliadau 2001 yn sicrhau, oni nodir yn wahanol, fod Rheoliadau 2001 yn gymwys i gyd-bwyllgorau corfforedig mewn perthynas â phwyllgorau safonau a sefydlir gan y cyd-bwyllgorau corfforedig hynny fel y byddai i awdurdodau perthnasol eraill. Mae rhywfaint o ddarpariaeth benodol wedi'i gwneud mewn cysylltiad â chyd-bwyllgorau corfforedig pan na fo Rheoliadau 2001 fel y'u drafftiwyd yn cyd-fynd â strwythur aelodaeth cyd-bwyllgorau corfforedig. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer maint, cyfansoddiad a thrafodion pwyllgorau safonau a sefydlir gan gyd-bwyllgorau corfforedig.

Maent hefyd yn cywiro dau wall bach yn nhestun Cymraeg Rheoliadau 2001. Mae'r gwall cyntaf yn rheoliad 7(1) o Reoliadau 2001 ac mae'n cael ei gywiro drwy roi'r gair "swyddog" yn lle'r gair anghywir "aelod" fel y nodir yn rheoliad 6(a) o'r Rheoliadau hyn. Mae'r ail wall o natur debyg ac mae yn rheoliad 7(2) o Reoliadau 2001 ac mae wedi'i gywiro drwy gyfieithu'r diwygiad yn rheoliad 6(c) o'r Rheoliadau hyn sydd, er nad yw'n gyfieithiad uniongyrchol o'r fersiwn Saesneg, yn cael yr un effaith gyfreithiol yn y ddwy iaith.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Craffu ar Rinweddau

Nodwyd y 2 bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ond nodir yr esboniad a ganlyn yn Rhan 5 o'r Memorandwm Esboniadol:

> *"Mae'r dull cyffredinol o ddatblygu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i gyd-bwyllgorau corfforedig a'r dyletswyddau a ddylai fod yn gymwys wedi'i ddatblygu ar y cyd â Llywodraeth Leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a nifer o rwydweithiau proffesiynol, gan gynnwys, er enghraifft, Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol a Chymdeithas Trysoryddion Cymru.*
>
> *Roedd yr ymgynghoriad ar Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022 rhwng 10 Tachwedd 2021 a 22 Rhagfyr 2021 yn gofyn i ymatebwyr a oeddent yn cytuno â'r dull arfaethedig o roi effaith lawn i gymhwysiad Rhan 3 o Ddeddf 2000 i gyd-bwyllgorau corfforedig ac roedd yn nodi'n glir y gorchmynion a'r rheoliadau penodol y byddai'n rhaid eu diwygio wedi hynny. Roedd pawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwnnw yn cytuno â'r dull a amlinellwyd."*

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ond nodir yr esboniad a ganlyn yn Rhan 6 o'r Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân wedi'i lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, roedd yr asesiad effaith rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd-orllewin (Cymru) 2021 yn asesu'r costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r cyd-bwyllgorau corfforedig drwy reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl, ystyriodd yr asesiad effaith rheoleiddiol y bwriad polisi cyffredinol y dylid trin cyd-bwyllgorau corfforedig fel rhan o'r "teulu llywodraeth leol". Felly, cafodd y costau sy'n gysylltiedig â chymhwyso Rheoliadau 2001 i gyd-bwyllgorau corfforedig eu hystyried fel rhan o'r asesiad effaith rheoleiddiol ar y rheoliadau sefydlu eu hunain."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**26 Medi 2023**

# SL(6)384 – Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) (Diwygio) 2023

## Cefndir a Diben

Cafodd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu sefydlu drwy reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Maent yn gyrff corfforaethol rhanbarthol, sy'n lled debyg i awdurdodau lleol o ran y pwerau a'r dyletswyddau sydd ganddynt, ac maent yn gyfrifol am gynllunio datblygiadau strategol, cynllunio trafnidiaeth ranbarthol a hyrwyddo llesiant economaidd eu hardal.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at y diffiniad o "*awdurdod perthnasol*" yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001").

Mae Rheoliadau 2001 yn nodi'r amgylchiadau a'r weithdrefn sy'n caniatáu i bwyllgor safonau awdurdod perthnasol roi gollyngiadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig rhag y gwaharddiadau yn narpariaethau gorfodol eu codau ymddygiad.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y rheoliad hwn yn rhan o becyn o offerynnau sy'n sail i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac sy'n ceisio sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i'r un gofynion gweinyddol a gofynion llywodraethu â gweddill llywodraeth leol. Mae'n mynd ymlaen i nodi mai'r bwriad cyffredinol yw y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael ei drin fel rhan o'r "teulu llywodraeth leol" ac y bydd yn ddarostyngedig i raddau helaeth i'r un pwerau a dyletswyddau ag awdurdodau lleol, neu bwerau a dyletswyddau tebyg, yn y ffordd y mae'n gweithredu ac yn cael ei lywodraethu.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(vi) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan nad oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae'r memorandwm yn nodi'r hyn a ganlyn:

> "[*Gwnaeth yr asesiadau effaith rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau a sefydlodd y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig presennol yng Nghymru*] asesu'r costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl, ystyriodd yr asesiad effaith rheoleiddiol y bwriad polisi cyffredinol y dylid trin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r "teulu llywodraeth leol". Felly, cafodd y costau sy'n gysylltiedig â chymhwyso Rheoliadau 2001 i Gyd-bwyllgorau Corfforedig eu hystyried fel rhan o'r asesiad effaith rheoleiddiol ar y rheoliadau sefydlu eu hunain."

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**26 Medi 2023**

# SL(6)385 – Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae paragraff 2(3) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn darparu, wrth lunio rhestr ardrethu annomestig, fod gwerth ardrethol hereditament annomestig i'w benderfynu drwy gyfeirio at y diwrnod y mae rhaid llunio'r rhestr neu ar ddiwrnod cyn y diwrnod hwnnw a bennir drwy orchymyn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 1 Ebrill 2024 fel y diwrnod y cyfeirir ato i benderfynu gwerth ardrethol hereditament annomestig at ddibenion y rhestrau ardrethu annomestig lleol a chanolog nesaf a lunnir ar gyfer Cymru ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Craffu ar Rinweddau

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn yn nodi'r canlynol:

> *"... mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo, yn ddiofyn, i ostwng y cyfnod rhwng ailbrisiadau o bob pum mlynedd i bob tair blynedd. Wedi'r ailbrisio a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2023, bwriedir i'r ailbrisio nesaf ddigwydd ar 1 Ebrill 2026, yn amodol ar basio deddfwriaeth sylfaenol angenrheidiol."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**26 Medi 2023**

Eitem 2.4

# SL(6)382 - Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Ar 6 Mai 2022, daeth darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (**Deddf 2021**) sy'n ymwneud â'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy ar gyfer ethol cynghorwyr i brif gyngor (h.y. cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) i rym Mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu i brif gynghorau benderfynu cynnal etholiadau gan ddefnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy yn hytrach na'r system mwyafrif syml.

Mewnosodwyd adran 36A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheolau ar gyfer cynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, gan adran 13 o Ddeddf 2021. Arferwyd y pŵer hwnnw i wneud Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 (**Rheolau 2021**). Mae Rheolau 2021 yn nodi sut y mae'n rhaid cynnal etholiadau i brif gynghorau pan ddefnyddir y system mwyafrif syml. Nid ydynt yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal etholiadau pan ddefnyddir y system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

Mae Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy) (Cymru) 2023 yn diwygio Rheolau 2021 er mwyn iddynt ddarparu ar gyfer cynnal etholiadau pan ddefnyddir y system pleidlais sengl drosglwyddadwy. Bydd Rheolau 2021 yn parhau i wneud darpariaeth ynghylch y system mwyafrif syml ar gyfer cynnal etholiadau mewn prif ardaloedd nad ydynt wedi penderfynu defnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

System pleidleisio blaenoriaethol yw'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy, sy'n golygu y gofynnir i bleidleiswyr roi'r ymgeiswyr sydd ar gael yn nhrefn eu blaenoriaeth, gan ddefnyddio rhifau. Caiff pleidleiswyr ddewis roi'r holl ymgeiswyr sydd ar gael mewn trefn neu ddim ond cynifer ag y dymunant. Ystyrir bod y system pleidlais sengl drosglwyddadwy yn system cynrychiolaeth gyfrannol. Mae fel arfer yn arwain at ganlyniadau sydd ar y cyfan yn adlewyrchu cyfrannau'r pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer y gwahanol bleidiau gwleidyddol, grwpiau ac ymgeiswyr annibynnol mewn ardal etholaethol unigol ac yn yr etholiad cyfan.

Diffinnir y system pleidlais sengl drosglwyddadwy yn ffurfiol yn adran 6(2) o Ddeddf 2021.

Mae'r ffurf ragnodedig a ganlyn ar gyfer blaen y papur pleidleisio ar gyfer y system pleidlais sengl drosglwyddadwy wedi'i nodi yn y Rheolau ar gyfer y system:

| **Etholiad cynghorwyr i [rhowch enw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol] – [rhowch enw'r ward]** | | |
|---|---|---|
| Gallwch ddewis cynifer neu gyn lleied ag y dymunwch.<br>Rhowch y rhif **1** yn y blwch pleidleisio gyferbyn â'ch dewis cyntaf.<br>Rhowch y rhif **2** yn y blwch pleidleisio gyferbyn â'ch ail ddewis.<br>Rhowch y rhif **3** yn y blwch pleidleisio gyferbyn â'ch trydydd dewis. **Ac yn y blaen.** | | |
| **JAMES, Lisa**<br>6, Y Stryd, Y Dre CY36 4EZ<br>**Plaid Hybu Moeseg mewn Llywodraeth Leol** | Arwyddlun | |
| **KAY, Michael**<br>12, Y Stryd Fawr, CP1 5LL<br>**Plaid Gwella'r Gyfraith Etholiadol** | Arwyddlun | |
| **THOMAS, Gareth**<br>Gwlad yr Iâ<br>**Plaid Gwella'r Gyfraith Etholiadol** | Arwyddlun | |
| **THOMAS RICHARDS, Angharad**<br>Sir Hafod<br>**Plaid Cyfraith Dda** | Arwyddlun | |
| **WILLIAMS, Sian**<br>92, Yr Avenue, CP12 3LO<br>**Annibynnol** | | |
| **WYATT, Cath**<br>Sir Gernyw<br>**Plaid Effeithlonrwydd** | Arwyddlun | |
| **XERRI, Mathew**<br>24 Pen-y-Lan, CP2 6NQ<br>**Plaid Cyfraith Dda** | Arwyddlun | |

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheolau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 6 phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Nodwn y mân wallau drafftio a ganlyn.

- Yn rheol 2(a), mae'r disgrifiad o'r diwygiad, "yn y geiriau mewn cromfachau", yn methu â nodi'r lleoliad ac nid yw'n ddefnyddiol oherwydd bod pob un o'r diffiniadau a restrir yn rheol 3(3) yn cynnwys geiriau mewn cromfachau wedyn. Byddai wedi bod yn ddigon nodi "yn lle "adran 202(1)" rhodder "adrannau 202(1) a 203(1)"" gan mai dim ond un cyfeiriad sydd at adran 202(1) yn rheol 3(3).
- Yn hytrach na chyfeirio at "paragraff" dylid cyfeirio at "is-baragraff".
    - Yn rheolau 3(5)(c) a 7(5)(c), disgrifir lleoliadau'r diwygiadau yn anghywir fel "o flaen paragraff (a)". Fodd bynnag, dylid disgrifio'r ddau fel "is-baragraff (a)" gan eu bod yn rhaniadau o fewn paragraffau a geir yn rheol 31 o Atodlenni 1 a 2 yn y drefn honno i Reolau 2021.
    - Yn rheolau 4(2) ac 8(2), yn rheolau newydd 60J, 60K, 60O, 60P, 64N, 64O, 64S a 64T, mae cyfeiriadau mynych at "baragraff (a) ("papurau trosglwyddadwy")" ac at "baragraff (b) ("papurau anhrosglwyddadwy")". Fodd bynnag, mae'r disgrifiadau o'r cyfeiriadau hyn yn anghywir a dylid eu disgrifio i gyd fel "is-baragraff (a) ("papurau trosglwyddadwy")" ac "is-baragraff (b) ("papurau anhrosglwyddadwy")".
- Yn rheol 8(1), yn y testun Saesneg, mae geiriau ar goll yn y disgrifiad o leoliad y diwygiad i bennawd Rhan 4 o "Schedule 2 2021 Rules". Dylai nodi "Schedule 2 to the 2021 Rules".

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheol newydd 60F yn nodi rhestr o dermau diffiniedig sy'n berthnasol i Bennod 2. Pan fydd rheol ym Mhennod 2 yn defnyddio un o'r termau hynny, yn aml caiff darllenwyr eu hatgoffa bod y term wedi'i ddiffinio yn rheol 60F. Er enghraifft:

- Mae rheol 60F yn diffinio “cwota”.
- Mae rheol 60I(2) yn defnyddio'r term “cwota”.
- Mae rheol 60I(5) yn atgoffa darllenwyr bod ystyr “cwota” i’w weld yn rheol 60F.

Nodwn fod rheol 60F hefyd yn diffinio “cam o’r cyfrif”. Fodd bynnag, pan ddefnyddir ”cam o’r cyfrif” yn rheolau 60I, 60K a 60Q er enghraifft, nid oes unrhyw nodyn atgoffa bod ystyr “cam o’r cyfrif” i'w weld yn rheol 60F. Gweler hefyd y defnydd o’r term ”ymgeisydd sy’n parhau” yn rheol 60N.

Mae’r un mater yn codi o ran y diffiniadau a nodir yn rheol 64J.

Nodwn hefyd fod rheol 3 o Reolau 2021 yn cynnwys diffiniadau sy’n gymwys i Reolau 2021 yn eu cyfanrwydd; er enghraifft, mae rheol 3 yn diffinio “Deddf 1983” i olygu Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Fodd bynnag, lle y mae Rheolau 2021 yn defnyddio’r term “Deddf 1983” nid oes unrhyw nodyn atgoffa bod y diffiniad i’w weld yn rheol 3.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru egluro ei dull ar gyfer nodi diffiniadau a phryd y mae angen atgoffa darllenwyr o ble y gellir dod o hyd i ddiffiniadau.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mewn rhai mannau, mae'r Rheolau Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy yn cyfeirio at drosglwyddo papurau yn gyffredinol yn unol â rheol benodol. Fodd bynnag, mewn mannau eraill, mae'r Rheolau’n cyfeirio at drosglwyddo papurau yn unol â pharagraffau penodol o reol benodol.

Er enghraifft:

- Mae rheol 60P(3) yn cyfeirio at drosglwyddo papurau “yn unol â’r rheol hon”.
- Mae rheol 64T(3) yn cyfeirio at drosglwyddo papurau “yn unol â pharagraffau (4) a (5) o’r rheol hon”.

Nid yw'n glir a yw’r gwahaniaeth hwn yn fwriadol a pha effaith a gaiff ar drosglwyddo papurau.

Gweler hefyd reolau 60J, 60K, 64N, 64O a 64S.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheol newydd 60P(5) yn cyfeirio at werth trosglwyddo pleidlais fel “y gwerth a oedd i’r bleidlais **ar y papur pleidleisio** pan gafwyd hi gan yr ymgeisydd a eithriwyd” (pwyslais wedi'i ychwanegu). Fodd bynnag, mae rheol gyfatebol 64T(5) yn cyfeirio at werth trosglwyddo pleidlais fel “y gwerth a oedd i’r bleidlais pan gafwyd hi gan yr ymgeisydd a eithriwyd”.

Nid yw'n glir a yw’r gwahaniaeth hwn yn fwriadol a pha effaith a gaiff ar werth trosglwyddo pleidlais.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheolau newydd 60T a 64X yn nodi'r weithdrefn ar gyfer ailgyfrif pleidleisiau. Mae’r rheolau hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu rheolau presennol 57 o Atodlen 1 a 61 o Atodlen 2. Fodd bynnag, mae’r rheolau presennol hynny’n cynnwys darpariaeth ychwanegol sy’n cadarnhau bod y rheolau sy’n gymwys i ailgyfrif hefyd yn gymwys i unrhyw ailgyfrif pellach. Nodwn nad yw rheolau newydd 60T a 64X yn cynnwys y ddarpariaeth ychwanegol honno.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu’r drafft**

- Yn rheol 3(3)(b), yn rheol newydd 22(3A)(a), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Mae’r testun Saesneg yn cyfeirio at “Appendix **2A**” ond mae’r testun Cymraeg yn cyfeirio at “Atodiad **2**”.

- Yn rheol 8(2), yn rheol newydd 64G(3)(a), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Mae’r testun Saesneg yn cyfeirio at “the **registration** officer” ond mae wedi’i gyfieithu yn y testun Cymraeg fel “y swyddog **canlyniadau**”.

- Yn rheol 8(2), yn rheol newydd 64R(1), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Mae’r testun Saesneg yn cyfeirio at “rule 64N **or 64O**” ond dim ond at “rheol 64N” y mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio.

- Yn Atodlen 3, yn yr Atodiad newydd 5A, yn y “Cerdyn Pleidleisio Swyddogol Dirprwy” newydd ar dudalen 50 (testun Saesneg)/tudalen 64 (testun Cymraeg), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Ym mrawddeg olaf y golofn dde, mae’r testun Saesneg yn cyfeirio at “A poll card sent or delivered to **the proxy of an elector**...” ond mae hyn wedi'i gyfieithu fel “cerdyn pleidleisio a anfonir neu a ddanfonir **at etholwr**...” yn y testun Cymraeg.

  Mae’r un gwall hefyd yn codi yn Atodlen 7, yn yr Atodiad newydd 5A ar gyfer Atodlen 2 i Reolau 2021, yn y “Cerdyn Pleidleisio Swyddogol Dirprwy” newydd ar dudalen 77 (testun Saesneg)/ tudalen 83 (testun Cymraeg).

- Yn Atodlen 6, yn yr Atodiad newydd 4A, yn y “Cyfarwyddiadau ar farcio’r papurau pleidleisio a llenwi’r datganiad pleidleisio post”, ym mhwynt 2 ar dudalen 69 (testun Saesneg)/ tudalen 74 (testun Cymraeg), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Cymraeg, mae paragraff ychwanegol nad yw’n bresennol yn y testun Saesneg yn union ar ôl y geiriau sy’n cyfateb i “Rhowch y rhif 3 yn y blwch pleidleisio gyferbyn â’ch trydydd dewis. Ac yn y blaen”. Mae'r paragraff ychwanegol yn y testun Cymraeg yn rhoi cyfarwyddiadau i'r darllenydd ynghylch rhoi’r rhifau yn y blychau ar ochr dde'r papur pleidleisio wrth ymyl enw'r ymgeisydd.

- Yn Atodlen 6, yn yr Atodiad newydd 4A, yn y "Cyfarwyddiadau ar farcio'r papurau pleidleisio a llenwi'r datganiad pleidleisio post", ym mhwynt 2 ar dudalen 69 (testun Saesneg)/ tudalen 74 (testun Cymraeg), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, yn y paragraff sy'n dechrau â'r geiriau "Where the ballot paper has been sent to a person voting as proxy,...." mae cyfeiriad at "a suitable form of words **for marking** the ballot paper". Ond mae hyn wedi'i gyfieithu i olygu "ffurf addas ar eiriau **ar gyfer y cyfarwyddiadau ynglŷn â marcio'r** papur pleidleisio" yn y testun Cymraeg. Ymddengys fod y testun Cymraeg yn gywir y tro hwn gan fod y geiriau "ar gyfer y cyfarwyddiadau" wedi'u cynnwys yn gynharach yn yr un ymadrodd ym mhwynt 2 o'r cyfarwyddiadau hyn ac mewn darpariaeth debyg yn ddiweddarach yn Atodlen 8, ym mhwynt 3 o'r Atodiad newydd 6A.

- Yn Atodlen 7, yn yr Atodiad newydd 5A, yn y "Cerdyn Pleidleisio Swyddogol Dirprwy" newydd, ar "Cefn y cerdyn" ar dudalen 78 (testun Saesneg)/ tudalen 83 (testun Cymraeg), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'r gair 'write' yn ymddangos ar ddiwedd y frawddeg "Do not mark the ballot paper in any other way **write**". O ganlyniad, nid yw'r testun Saesneg yn gwneud synnwyr ac mae'r cyfieithiad wedi hepgor y gair yn y testun Cymraeg. Ymddengys fod y testun Cymraeg yn gywir gan fod yr un frawddeg wedi'i defnyddio heb y gair "write" mewn tua 9 man arall yn yr Atodlenni.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**7. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheol newydd 32(12) yn nodi gwybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn y bythau pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio pan ddefnyddir y system pleidlais sengl drosglwyddadwy. Rhaid cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

(a) cyfarwyddyd i'r pleidleisiwr i roi'r rhif 1 yn y blwch pleidleisio gyferbyn â'i ddewis cyntaf;

(b) esboniad i'r pleidleisiwr y caiff wneud cynifer neu gyn lleied o ddewisiadau ychwanegol ag y dymuna, ynghyd â chyfarwyddyd ynghylch sut i wneud hyn drwy roi'r rhif 2 gyferbyn â'i ail ddewis, y rhif 3 gyferbyn â'i drydydd dewis ac yn y blaen.

O ystyried y bydd y system pleidlais sengl drosglwyddadwy yn newydd i lawer o bleidleiswyr, a wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys rhagor o wybodaeth mewn bythau pleidleisio, gan gynnwys, er enghraifft, esboniad o ganlyniadau gwneud dewisiadau ychwanegol (h.y. y gall pleidleisiau gael eu trosglwyddo lle y caiff ymgeisydd ei ethol ac mae ganddo bleidleisiau dros ben)?

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pwyntiau 2 i 7.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**27 Medi 2023**

# SL(6)386 - Gorchymyn y Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 2) 2023

## Cefndir a diben

Sefydlwyd Cynllun Masnachu Allyriadau ("ETS") y DU gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 ("y prif Orchymyn") fel cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y DU gyfan, a fydd yn ffordd gost-effeithiol o annog y sectorau pŵer, diwydiant ac awyrennau i leihau eu hallyriadau. Cafodd ei ddylunio ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae'n cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau a nod sero net y DU, yn ogystal â'r llwybr lleihau allyriadau yng Nghymru.

Cafodd ETS y DU ei sefydlu gan y prif Orchymyn i fod yn weithredol o 1 Ionawr 2021 ac i bara am ddeng mlynedd. Mae'r cynllun yn gweithio drwy ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gweithfeydd diwydiannol ynni-ddwys, cynhyrchwyr pŵer a gweithredwyr awyrennau fonitro, adrodd ar ac ildio "lwfansau" sy'n cyfateb i'w hallyriadau nwyon tŷ gwydr ym mhob un o flynyddoedd y cynllun. Mae rhai cyfranogwyr yn cael dyraniad o lwfansau yn ddi-dâl. Cyhoeddir eu manylion mewn tablau dyrannu.

Mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys nifer o welliannau sy'n ymdrin â newidiadau technegol mewn ymateb i anghenion newidiol cyfranogwyr y cynllun a nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn benodol, mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud yr hyn a ganlyn:

- symleiddio'r drefn ar gyfer dosbarthu cynhyrchwyr trydan i ganiatáu mynediad tecach at ddyraniadau am ddim;
- yn rhoi terfyn ar ddyraniadau am ddim gweithredwyr awyrennau ar 100 y cant o'u hallyriadau wedi'u dilysu;
- caniatáu i weithredwyr gweithfeydd dal carbon dderbyn dyraniadau am ddim.

Nodir nad oes unrhyw weithredwyr hedfanaeth yng Nghymru o dan ddiffiniadau ETS y DU.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, a Senedd yr Alban. Rhaid i'r drafft gael ei gymeradwyo gan bob un o'r deddfwrfeydd hynny cyn y gellir ei wneud gan Ei Fawrhydi.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

   Nodwn y gosodwyd drafft o'r Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, a Senedd yr Alban. Felly, mae'r Gorchymyn drafft yn Saesneg yn unig a chaiff ei wneud yn Saesneg yn unig.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**27 Medi 2023**

# SL(6)379 – Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) (Diwygio) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 1990 (“**Rheoliadau 1990**”) yn gosod cyfyngiadau ar weithgareddau gwleidyddol cyhoeddus swyddogion llywodraeth leol mewn swyddi sy’n swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (“**swyddi dan gyfyngiadau**”).

Mae’r cyfyngiadau ar ffurf telerau ac amodau y bernir eu bod wedi eu hymgorffori yn nhelerau penodiad ac amodau cyflogaeth y swyddogion hynny (“**y cyfyngiadau**”).

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn y cyfyngiadau i swyddogion cydbwyllgor corfforedig a sefydlwyd gan reoliadau o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 lle mae'r swyddogion hynny'n cael eu penodi i, neu eu cyflogi mewn swyddi dan gyfyngiadau.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae Rheoliad 3 yn mewnosod diffiniad newydd o "*awdurdod lleol*" yn rheoliad 2 o Reoliadau 1990 sy'n darparu, at ddibenion Rheoliadau 1990, fod awdurdod lleol yn cynnwys Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

Yn yr Atodlen i Reoliadau 1990, sy'n cynnwys y cyfyngiadau, ceir nifer o gyfeiriadau at awdurdod lleol. Er enghraifft, mae paragraff 2C o'r Atodlen honno'n darparu ar gyfer terfynu penodiad ar unwaith mewn amgylchiadau pan fo deiliad swydd perthnasol yn rhoi hysbysiad i'r "awdurdod lleol" o fwriad i ddod yn ymgeisydd mewn etholiad yn y Senedd.

Felly, gofynnir i'r Llywodraeth egluro effaith arfaethedig rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn, i'r graddau y mae'n ymwneud â phob un o'r cyfeiriadau at "awdurdod lleol" sy'n ymddangos yn yr Atodlen i Reoliadau 1990.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Rheoliadau hyn:

> *"…yn rhan o becyn o offerynnau sy'n sail i sefydlu CBCau ac sy'n ceisio sicrhau eu bod yn ddarostyngedig i'r un gofynion gweinyddu a llywodraethu â llywodraeth leol."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru o ran y pwynt adrodd cyntaf.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod 25 Medi 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) (Diwygio) (Cymru) 2023 ("Rheoliadau 2023")**

**Pwynt Craffu Technegol**

Rydym yn cytuno i'r Atodlen i Reoliadau Swyddogion Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 1990 ("Rheoliadau 1990") ddod yn anodd ei llywio oherwydd y diwygiadau a wnaed gan wahanol Lywodraethau dros amser, gan gynnwys mewnosod paragraff 2C gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Serch hynny, rydym o'r farn y bydd effaith ymarferol y diwygiad a wneir gan Reoliadau 2023 yn glir i gyd-bwyllgorau corfforedig.

Mae'r diffiniad newydd o "local authority" a fewnosodir gan reoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gymwys i reoliad 3 o Reoliadau 1990 ac i baragraffau 2 a 2D o'r Atodlen. Nid yw paragraffau 2B a 2C o'r Atodlen yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru a diffinnir y term ym mharagraff 1 drwy gyfeirio at ddiffiniad yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 nad yw'n cynnwys cyd-bwyllgorau corfforedig.

Pan ddaw'r cyfle, bydd Gweinidogion Cymru yn anelu at ail-wneud Rheoliadau 1990 i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru i wella eu hygyrchedd.

Eitem 3.2

# SL(6)380 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004").

Mae'r Rheoliadau'n pennu'r fframwaith ar gyfer contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ("GMC") o dan Ran 4 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("y Ddeddf"). Bydd y contractwr GMC yn cynnal contract GMC Unedig cyffredin ("Contract Unedig") gyda bwrdd iechyd lleol ("BILl") ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol y GIG i gleifion, a bydd modd iddynt allu dangos lefelau uchel o safonau a gofal ansawdd yn erbyn y contract yn hawdd.

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau'n nodi mai nod Contract Unedig yw:

- symleiddio pa wasanaethau y mae pob practis ymarferydd cyffredinol yng Nghymru yn eu darparu fel rhan o'r GIG, a sut y maent yn dangos tystiolaeth o sicrwydd ynghylch cyflenwi gwasanaethau;
- cysoni'r maes ymarfer cyffredinol â modelau gwasanaeth sy'n datblygu ar gyfer darparu gofal, yn seiliedig ar ethos gofal iechyd darbodus;
- ei gwneud yn haws i gleifion a phroffesiynolion gofal iechyd ddeall y cyfrifoldebau dros ddarparu gwasanaethau;
- lleihau biwrocratiaeth weinyddol;
- rhyddhau amser ac adnoddau ar gyfer darparu gwasanaethau; a
- galluogi defnyddio data a thechnoleg i helpu i gynllunio adnoddau a darparu gwasanaethau.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y 53 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Cyfeirir 6 gwaith yn y Rheoliadau at Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 ond nid yw'r Ddeddf honno wedi'i diffinio ac nid oes troednodyn na chyfeiriad yn ymddangos yn unman yn y Rheoliadau mewn perthynas â'r Ddeddf honno.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae sawl enghraifft o dermau sydd wedi'u diffinio yn rheoliad 3(1) nad ydynt wedyn yn cael eu defnyddio'n gywir yn ddiweddarach yn y Rheoliadau, gan gynnwys:

a) Yn rheoliad 2(a) ac Atodlen 6, cyfeirir at Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004. Fodd bynnag, maent wedi'u diffinio fel "Rheoliadau 2004" gan reoliad 3(1).
b) Yn rheoliad 17(1), cyfeirir at "contract gwasanaethau meddygol cyffredinol". Fodd bynnag, mae wedi'i ddiffinio yn rheoliad 3(1) fel "contract GMC".
c) Yn Atodlen 2, ym mharagraff 1(2)(a) a (3), mae cyfeiriadau at "Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru". Fodd bynnag, mae'r corff hwn wedi'i ddiffinio fel "Iechyd Cyhoeddus Cymru" yn rheoliad 3(1).

Mae'n bwysig bod termau diffiniedig yn cael eu defnyddio'n gyson neu, os bwriedir iddynt fod ag ystyr gwahanol, fod hynny'n cael ei esbonio'n glir.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 3(1) yn darparu ar gyfer diffiniad o "anghymhwysiad cenedlaethol". Mae'r diffiniad yn cynnwys paragraff (iv) sy'n nodi:

> *adrannau 83, 86, 103 neu 105 (cyflawnwyr gwasanaethau fferyllol a chynorthwywyr) o'r Ddeddf*

Fel arfer, ac yng ngweddill y diffiniad, mae cyfeiriadau at ddarpariaethau statudol yn cyfeirio at rif yr adran gyda phennawd yr adran ar ei ôl. Nid oes unrhyw gyfeiriad at benawdau adrannau 83, 86 na 103 yn y diffiniad hwn (er y cyfeirir at adran 86 gyda'r pennawd llawn yn ddiweddarach yn rheoliad 3(1), a allai esbonio pam y mae pennawd adran 86 wedi ei hepgor yma). Yn ogystal, "Supplementary Lists" yw pennawd adran 105 o'r Ddeddf. Nid yw "Performers of pharmaceutical services and assistants" yn deitl ar yr un o'r adrannau y cyfeirir atynt yn y diffiniad.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn rheoliad 3(1), yn y diffiniadau o "Rheoliadau 2004" a "Rheoliadau Fferyllol", yn y testun Cymraeg, mae'r gair "(Wales)" yn enwau'r Offerynnau Statudol hynny wedi'i gyfieithu'n anghywir fel "(Mawrth)".

**5. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn rheoliad 3(1), yn y diffiniad o "dyfarnwr", yn y testun Cymraeg, mae'r cyfieithiad wedi camddehongli ystyr "paragraph 106(5) of Schedule 3" drwy gysylltu'r Atodlen honno ag "y Ddeddf" a grybwyllir yn gynharach yn y diffiniad hwnnw yn y cyfeiriad at "adran 7(8) o'r Ddeddf". Gwneir hyn drwy ychwanegu'r arddodiad benywaidd "iddi" ar ôl y cyfeiriad at "paragraff 106(5) o Atodlen 3" yn y testun Cymraeg. Felly, mae darllenydd y testun Cymraeg yn cael ei gamarwain i gredu bod paragraff 106(5) o Atodlen 3 yn y Ddeddf. Ond cyfeirio y mae at baragraff 106(5) o Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 3(1), yn y diffiniad o "Bwrdd Iechyd Lleol", mae'r ymadrodd "oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall" wedi ei ddefnyddio. Fodd bynnag, mae paragraff 4.8(5) o ganllawiau drafftio Llywodraeth Cymru, Drafftio Deddfau i Gymru, yn nodi nad yw defnyddio'r ymadrodd hwnnw at ei gilydd yn ddefnyddiol i'r darllenydd ac y dylid egluro ble mae'r diffiniad yn gymwys. Byddai eglurhad pellach felly o gymorth yn hyn o beth.

**7. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 3(1) yn darparu ar gyfer diffiniad o "proffil practis ar-lein" sy'n cyfeirio at wefan y GIG. Nid yw "gwefan y GIG" wedi'i ddiffinio yn y Rheoliadau, a chan fod gan y GIG nifer o wefannau ledled y DU ac yng Nghymru gallai hyn beri dryswch ynghylch pa wefan y cyfeirir ati.

**8. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 3(1) yn darparu ar gyfer diffiniad o "optometrydd-ragnodydd annibynnol" sy'n cynnwys optometryddion sydd wedi'u cofrestru yn y gofrestr o optometryddion ar ymweliad o Wladwriaethau Ewropeaidd perthnasol a gynhelir o dan adran 8B(1)(a) o Ddeddf Optegwyr 1989. Diddymwyd adran 8B gan Reoliadau Cymwysterau Ewropeaidd (Y Proffesiynau Iechyd a Gofal Cymdeithasol) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019"). Cyfeirir at y ddarpariaeth hon a ddiddymwyd hefyd ym mharagraff (d) o'r diffiniad o "rhagnodydd atodol". Mae angen eglurhad ynghylch a yw'r ddarpariaeth arbed yn Rheoliadau 2019 sy'n gymwys i adran 8B(1)(a) yn dal i fod yn gymwys neu a yw cyfeiriadau at adran 8B(1)(a) bellach wedi darfod. Os yw'r ddarpariaeth arbed yn dal i fod yn berthnasol, byddai gwybodaeth bellach ynghylch y pwynt hwn wedi bod yn ddefnyddiol mewn troednodyn.

**9. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn rheoliad 3(1), yn y diffiniad o "optometrydd-ragnodydd annibynnol", yn y testun Cymraeg, mae'r term "dispensing opticians" wedi'i gyfieithu fel "optegwyr fferyllol". Mae hyn yn awgrymu i ddarllenydd y testun Cymraeg mai "pharmaceutical opticians" neu "pharmacy opticians" yw'r ystyr, yng nghyd-destun y derminoleg a ddefnyddir ar gyfer "dispensing" mewn mannau eraill yn y Rheoliadau hyn. Mae gwefan Llywodraeth Cymru wedi safoni'r cyfieithiad o'r term "dispensing opticians" fel "optegwyr cyflenwi" (statws A). Ymddengys y byddai hefyd yn bosibl dweud "optegwyr gweinyddu", gan fod "gweinyddu" wedi'i ddefnyddio ar gyfer "dispensing" yn y Rheoliadau hyn.

**10. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 3(1) yn darparu ar gyfer diffiniadau o "parafeddyg-ragnodydd annibynnol", "parafeddyg cofrestredig", "radiograffydd cofrestredig" a "radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol", ac mae pob un ohonynt yn cyfeirio at gofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. Mae rheoliad 3(1) hefyd yn darparu diffiniadau ar gyfer "fferyllydd-ragnodydd annibynnol", "fferyllydd cofrestredig" a "rhagnodydd atodol" sy'n cyfeirio at Gofrestr y Cyngor Fferyllol Cyffredinol. Yn wahanol i gofrestrau eraill fel y rhain y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau, nid yw'r cofrestrau hyn wedi'u diffinio, ac nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i chynnwys ynghylch y sail statudol neu unrhyw sail arall ar gyfer bodolaeth cofrestrau o'r fath yn y diffiniadau hyn.

**11. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 3(1) yn darparu ar gyfer diffiniad o "gwasanaethau fferyllol" ac yn nodi ei fod yn cynnwys "gwasanaethau cyfeiriedig", ond nid yw'r Rheoliadau'n diffinio nac yn darparu unrhyw wybodaeth bellach ynghylch ystyr "gwasanaethu cyfeiriedig", a fyddai'n cynorthwyo'r darllenydd i ddeall y diffiniad hwn.

**12. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 3(1) yn darparu ar gyfer diffiniad o "ffisiotherapydd-ragnodydd annibynnol" sy'n cyfeirio at berson sydd wedi'i gofrestru o dan erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd a Gwaith Cymdeithasol 2002. Nid oes Gorchymyn o'r fath. Mae'r cyfeiriad yn y troednodyn yn nodi mai'r Gorchymyn cywir yw Gorchymyn Proffesiynau Iechyd 2001.

**13. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 3(1) yn darparu ar gyfer diffiniad o "Safonau Gwirio Cyn Cyflogaeth" ac yn nodi bod rhaid iddynt gynnwys elfennau o Safonau Gwirio Cyflogaeth y GIG a gyhoeddir gan Gonffederasiwn y GIG. Ymddengys mai NHS Employers, sef sefydliad cyflogwyr GIG Lloegr,

sy'n cyhoeddi'r Safonau hyn mewn gwirionedd. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai Llywodraeth Cymru gadarnhau a yw hyn yn gywir, a pham mai dim ond pump o'r chwe Safon sydd wedi'u cynnwys yn y diffiniad o "Safonau Gwirio Cyn Cyflogaeth" (mae'r safon asesiadau iechyd gwaith wedi'i hepgor).

**14. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 3(1) yn darparu ar gyfer diffiniad o "ffurflen bresgripsiwn" sy'n cyfeirio at "Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG", ond ni ddiffinnir y term hwnnw yn rheoliad 3(1).

**15. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 3(1) yn darparu ar gyfer diffiniad o "corff rheoleiddio neu oruchwylio" sy'n cynnwys "unrhyw gorff arall a restrir yn adran 25(2) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002". Mae adran 25(2) yn nodi swyddogaethau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac nid yw'n cynnwys rhestr o gyrff. Mae angen eglurhad felly ynghylch ai at adran 25(3) y dylid cyfeirio yma mewn gwirionedd.

**16. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 3(1) yn darparu ar gyfer diffiniad o "presgripsiwn amlroddadwy" sy'n cyfeirio at "meddyg fferyllol". Mae'r holl dermau eraill yn y diffiniad wedi'u diffinio yn rhywle arall ond ni ddarperir diffiniad ar gyfer y term "meddyg fferyllol". Cyfeirir at "meddyg fferyllol" hefyd ym mharagraff 60(2) o Atodlen 3. Byddai'n ddefnyddiol i'r darllenydd gael eglurder ynghylch pwy sy'n feddyg fferyllol.

**17. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 3(1), yn y diffiniad o "rhagnodydd amlroddadwy", mae gwallau drafftio ym mharagraffau (b) ac (c)(ii) a (iii) lle y mae cyfeiriadau at "Deddf 2006". Fodd bynnag, nid oes diffiniad o "Deddf 2006" yn y Rheoliadau hyn ac ymddengys mai cyfeiriad at y term diffiniedig "y Ddeddf" sydd yma.

**18. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 5(3)(c) yn cyfeirio at Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Hyfforddiant Galwedigaethol) (Gogledd Iwerddon) 1998. Dylai gyfeirio at Reoliadau Ymarferwyr Meddygol (Hyfforddiant Galwedigaethol) (Gogledd Iwerddon) 1998.

**19. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn rheoliadau 5(5) a 6(2)(f), yn y testun Cymraeg, mae "December" wedi ei gyfieithu'n anghywir fel "Mawrth". Yn ogystal, yn rheoliad 6(2)(g), yn y testun Cymraeg, mae "August" wedi ei gyfieithu'n anghywir fel "Mawrth".

**20. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 6(2)(f) yn cyfeirio at berson sydd wedi ei euogfarnu yn y DU o drosedd (heblaw llofruddiaeth) a gyflawnwyd ar neu ar ôl 14 [Rhagfyr] 2001 ac sydd wedi ei ddedfrydu i gyfnod hwy na 6 mis o garchar. A fyddai modd egluro pam y mae angen dyddiad penodol?

**21. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 6(2)(g) a pharagraff 119(3)(h) o Atodlen 3 yn cyfeirio at drosedd a gyflawnwyd ar neu ar ôl 26 [Awst] 2002. A fyddai modd egluro pam y mae angen dyddiad penodol?

**22. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 6(2)(h) yn cyfeirio at droseddau a gyflawnwyd ar neu ar ôl 1 Mawrth 2004. A fyddai modd egluro pam y mae angen dyddiad penodol?

**23. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn rheoliad 17(2)(a), yn y testun Saesneg, defnyddiwyd "its" heb gyfeiriad cynharach at enw sy'n golygu nad yw'n glir at beth y mae'r "its" yn cyfeirio ym mharagraff (2). Yn y testun Cymraeg, mae'r ymadrodd "y contractwr" wedi'i ddefnyddio yn y cyfieithiad yn y lle cyfatebol, sy'n gliriach os yw'r ystyr wedi'i ddehongli'n gywir.

**24. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn rheoliad 17(4), yn y diffiniad o "clefyd", yn y testun Cymraeg, mae "three-character" wedi ei gyfieithu fel "tri chymeriad". Mae sawl ystyr i "cymeriad" yn y Gymraeg gan gynnwys nodweddion neu enw (da neu fel arall) person neu ardal etc. Fodd bynnag, mae "three-character" yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at god gyda llythrennau a rhifau a ddefnyddir i adnabod clefyd felly nid yw "cymeriad" i'w weld yn cyfleu ystyr "character" yn gywir yn yr ymadrodd hwn. Ymddengys y byddai geiriau eraill fel "nod" neu "symbol" yn fwy priodol yn y cyd-destun hwn.

**25. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn rheoliad 28(11)(c), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg, gan fod yr holl eiriau cloi ar ôl paragraff (ii) yn y testun Saesneg ar goll yn y cyfieithiad. O ganlyniad, nid yw'r cyfieithiad yn gwneud synnwyr nac yn cyfleu ystyr y testun Saesneg. Yn ogystal, yn y

testun Cymraeg, mae “their” yn yr ymadrodd “(or their equivalent)” wedi ei gyfieithu i olygu “y darparwyr” yn unig. Os yw “their” yn cyfeirio at “contractors or providers” neu os yw’n cyfeirio at “unified services” yna mae’r cyfieithiad yn anghywir ac wedi camddehongli ystyr yr ymadrodd.

**26. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn Atodlen 1, yn ail golofn Tabl 1, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a’r testun Saesneg. Yn y testun Cymraeg, mae “Marine” yn y teitl “Naval and Marine Pay and Pensions Act 1865” wedi’i gyfieithu fel “Môr”. Fodd bynnag, mae’r gair “Marine” yn cyfeirio at filwyr a fyddai’n cael eu disgrifio heddiw fel “Royal Marine Commandos”. Felly, mae’r ystyr wedi’i ddehongli’n anghywir ac nid yw’n cyfleu ystyr “Marine” yn nheitl y Ddeddf honno. Byddai geiriau fel “Morlu” neu “Môr-filwyr” wedi bod yn fwy priodol yn y cyd-destun.

**27. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn Atodlen 2, ym mharagraff 1(1)(b), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a’r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae cyfeiriad at “paragraph 78 of Schedule 3”. Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg mae’r cyfeiriad hwn wedi’i gyfieithu fel “paragraff 79 o Atodlen 3”.

**28. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Yn Atodlen 2, ym mharagraff 7(1)(b), mae’r ymadrodd “such vaccines and immunisations” wedi’i ddefnyddio yn y testun Saesneg. Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, mae wedi’i gyfieithu fel “brechiadau ac imiwneiddiadau o’r fath”, sef “such vaccinations and immunisations”. Felly, mae gwahaniaeth ystyr rhwng y testun Cymraeg a’r testun Saesneg. Ymddengys fod y testun Cymraeg yn gywir, gan fod yr ymadrodd “vaccinations and immunisations” wedi’i ddefnyddio yn y testun Saesneg ym mharagraff 7(1)(a) ac ym mharagraff 3(2)(b) yn gynharach yn yr Atodlen hon.

**29. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraff 3(2)(a) o Atodlen 2 yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwr gynnig darparu brechiadau ac imiwneiddiadau i blant. Yn wahanol i’r hyn a wneir mewn mannau eraill yn y Rheoliadau, nid yw paragraff 3(2)(a) yn cyfyngu’r ddyletswydd hon i blant y mae gan y contractwr gyfrifoldeb amdanynt o dan y contract. Byddai’n ddefnyddiol felly cael eglurhad ynghylch a fwriedir i baragraff 3(2)(a) osod dyletswydd i wneud y cynnig i blant y mae’r contractwr yn gyfrifol amdanynt o dan y contract yn unig, ac os felly, pam nad yw hyn wedi’i ddatgan yn benodol.

**30. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraffau 16, 18 a 19 o Atodlen 3 yn ymwneud â darparu "gwasanaethau" gan glwstwr contractwr a chyfraniadau i'r Gydweithredfa Ymarfer Cyffredinol. Mae'r gair "gwasanaethau" wedi'i gynnwys mewn sawl diffiniad yn y Rheoliadau ond nid yw wedi'i ddiffinio ynddo'i hun. Byddai felly o gymorth i'r darllenydd gael eglurder ynghylch pa wasanaethau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 16, 18 ac 20 o Atodlen 3.

**31. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Mae gwall yn y cyfeiriadau ym mharagraff 22(b)(i) o Atodlen 3. Dylai'r fersiwn Gymraeg gyfeirio at "baragraff 43(1)(a)" a "baragraff 43(1)(b)" yn hytrach nag at "baragraff 44(1)(a)" a "baragraff 44(1)(b)". Ymddengys fod y fersiwn Saesneg yn gywir.

**32. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Mae anghysondeb rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg ym mharagraff 39(3) o Atodlen 3. Mae'r ddarpariaeth yn Saesneg yn dweud "subject to paragraph 41", tra bo'r fersiwn Gymraeg yn dweud "yn ddarostyngedig i baragraff 42". Ymddengys fod y cyfeiriad yn y testun Saesneg yn gywir.

**33. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Mae anghysondeb rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg ym mharagraffau 49(8) a 50(1)(b) o Atodlen 3. Mae fersiwn Gymraeg y Rheoliadau yn cynnwys gwallau croesgyfeirio, ac felly dylai'r cyfeiriadau at baragraff 58 gyfeirio at baragraff 57.

**34. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraffau 49, 50 a 51 o Atodlen 3 yn cyfeirio at berson awdurdodedig y claf yng nghyd-destun presgripsiynau. Nid yw'r term "person awdurdodedig" wedi'i ddiffinio ac felly nid yw'n glir pwy fyddai person awdurdodedig y claf na sut y gellir gwneud rhywun yn berson awdurdodedig.

**35. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraff 50 o Atodlen 3 yn cyfeirio at y dyddiad y mae GPE y contractwr yn mynd yn fyw, ond nid yw'r Rheoliadau'n darparu unrhyw wybodaeth ynghylch beth yw hyn na sut y caiff ei benderfynu. Byddai eglurhad pellach o gymorth i'r darllenydd yn hyn o beth.

**36. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn y testun Saesneg, mae paragraff 51(1) o Atodlen 3 yn cyfeirio at "DHCW", ond nid yw'r Rheoliadau'n diffinio'r acronym hwn ac nid oes troednodyn i gadarnhau beth yw ei ystyr.

**37. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Ym mharagraff 79(3) o Atodlen 3, diffinnir "Cofnod Meddyg Teulu Cymru" ("*Welsh GP Record*") ond ym mharagraff 79(1) o'r fersiwn Saesneg fe'i diffinnir hefyd fel "(WGPR)" a dim ond "WGPR" a ddefnyddir ym mharagraff 79(2). Nid yw'r mater hwn yn codi yn y fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau.

**38. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae paragraff 92 o Atodlen 3 yn ymdrin â darparu gwybodaeth i berson perthnasol. Mae'r diffiniad o'r term "person perthnasol" ym mharagraff 92(3) yn cynnwys swyddog meddygol, swyddog nyrsio, therapydd galwedigaethol neu ffisiotherapydd (ynghyd ag un arall nad yw'n berthnasol i'r pwynt adrodd hwn). Mae paragraff 92(4) yn mynd ymlaen i ddiffinio pob un o'r rolau hyn ac eithrio swyddog nyrsio. Mae diffiniad o'r term hwn ar goll ac felly nid yw'n bosibl penderfynu pwy sy'n swyddog nyrsio at ddiben paragraff 92.

**39. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Ym mharagraff 114(4) o Atodlen 3, mae'r fersiwn Saesneg yn nodi nad yw'r paragraff yn rhagfarnu unrhyw hawliau eraill i derfynu'r contract a all fod gan y BILl neu'r contractwr. Dim ond at y contractwr y mae'r fersiwn Gymraeg yn cyfeirio ac nid yw'n cynnwys y BILl.

**40. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae paragraff 117(6) o Atodlen 3 yn cyfeirio at Banel Addasrwydd i Ymarfer a Phanel Gorchmynion Interim o dan Ddeddf Meddygaeth 1983. Mae'r Ddeddf honno wedi'i diwygio fel bod Panel Addasrwydd i Ymarfer bellach yn Dribiwnlys Ymarferwyr Meddygol a Phanel Gorchmynion Interim yn Dribiwnlys Gorchmynion Interim.

**41. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraff 119(3)(v) o Atodlen 3 yn caniatáu i BILl derfynu contract pan fo'r contractwr wedi gwrthod cael archwiliad meddygol oherwydd pryderon nad yw'n gallu darparu gwasanaethau o dan y contract. Mae'n mynd ymlaen i nodi y gall terfyniad o'r fath ddigwydd pan fo'r contract gyda dau neu ragor o unigolion neu gyda chwmni a bod y BILl wedi'i fodloni bod y contractwr yn cymryd camau digonol i ddelio â'r mater. Mae'n ymddangos yn rhyfedd fod gan y BILl hawl i derfynu'r contract hyd yn oed pan fo wedi'i fodloni bod camau digonol yn cael eu cymryd i ymdrin â'r mater, felly mae angen eglurhad ynghylch a yw hyn yn gywir neu ai dim ond pan nad yw'r BILl wedi'i fodloni bod camau'n cael eu cymryd i ymdrin â'r mater y dylai terfynu'r contract fod yn opsiwn.

**42. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Mae anghysondeb rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg o ran un o'r cyfeiriadau ym mharagraff 126(1) o Atodlen 3. Mae'r fersiwn Saesneg yn dweud "123(2)" a'r fersiwn Gymraeg yn dweud "123".

**43. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraff 128(4)(a) o Atodlen 3 yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau'r Offeryn Hunanasesu Practisau ar gyfer Llywodraethu Clinigol a'r Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth. Ni ddarperir unrhyw wybodaeth bellach mewn perthynas â'r ddau derm hyn ac nid ydynt wedi'u diffinio yn y Rheoliadau.

**44. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.**

Mae anghysondeb rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg ym mharagraff 135 o Atodlen 3. Mae is-baragraff (1) o baragraff 135 yn y fersiwn Gymraeg ar goll. Mae'r testun yn gywir ond mae'r '—(1)' ar goll.

**45. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraff 135(2) o Atodlen 3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaethau gael eu darparu mewn modd sy'n cynorthwyo'r BILl i gydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal a'r Canllawiau ar y Ddyletswydd Ansawdd. Ni ddarperir unrhyw wybodaeth bellach mewn perthynas â'r ddau derm hyn ac nid ydynt wedi'u diffinio yn y Rheoliadau.

**46. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae paragraff 1(w) o Atodlen 4 yn cynnwys cyfeiriad anghyflawn. Mae'n cyfeirio at baragraff 60(2)(b) ond nid yw'n mynd ymlaen i gadarnhau ble mae dod o hyd i'r paragraff hwnnw. Nid oes paragraff 60(2)(b) yn Atodlen 4, ac ymddengys y dylai gyfeirio at Atodlen 3.

**47. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae paragraff 1(2) o Atodlen 5 yn diwygio'r diffiniad o "Medical Regulations" yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004. Tybir mai'r bwriad yw y bydd y diffiniad bellach yn cyfeirio at y Rheoliadau, ond fel y'i diwygiwyd bydd yr enw'n anghywir – bydd yn cyfeirio at "National Health Service (General Medical Services) (Wales) Regulation 2023", gyda'r gair "Contracts" wedi'i hepgor.

**48. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae paragraff 1(3) o Atodlen 5 yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) 2004 er mwyn cyfeirio at reoliad 10(6) o'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, nid oes rheoliad 10(6) yn y Rheoliadau hyn.

**49. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn Atodlen 5, ym mharagraff 2(2)(a)(iii) a (iv)(bb), mae'r disgrifiad yn nodi ffigur "6" sydd i'w ddisodli gan y diwygiad. Fodd bynnag, gellid dadlau nad yw'n ddigon clir gan fod cyfeiriadau yn y diffiniadau o "rhestr cleifion" a "rhagnodydd amlroddadwy" at "Deddf 2006". Felly, nid yw'r disgrifiad yn gwahaniaethu rhwng y "6" yn "Deddf 2006" a'r lleoedd hynny lle y mae'n digwydd ar ei ben ei hun yn y diffiniadau hynny.

**50. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae paragraff 2(2)(a)(iv)(aa) o Atodlen 5 yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2002 ("Rheoliadau 2002") er mwyn rhoi cyfeiriadau at baragraff 53 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn yn lle'r cyfeiriadau at baragraff 40 o Atodlen 6 i Reoliadau 2004. Fodd bynnag, mae cynnwys paragraff 40 o Atodlen 6 yn debyg iawn i baragraff 52 o'r Rheoliadau hyn, felly mae'n ymddangos y dylai'r cyfeiriad at baragraff 53 fod yn gyfeiriad at baragraff 52.

**51. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae paragraff 2(2)(b) o Atodlen 5 yn diwygio Rheoliadau 2002 er mwyn rhoi cyfeiriadau at baragraffau 60 a 61 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn yn lle'r cyfeiriadau at baragraffau 47 i 51 o Atodlen 6 i Reoliadau 2004. Mae paragraffau 47 i 51 yn cyfeirio at wasanaethau gweinyddu, ond dim ond paragraff 60 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn sy'n cyfeirio at wasanaethau o'r fath. Ymddengys felly mai gwall yw'r cyfeiriad at baragraff 61.

**52. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae paragraff 2(3)(a)(ii) o Atodlen 5 yn diwygio Rheoliadau 2002 er mwyn rhoi cyfeiriadau at baragraff 56 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn yn lle'r cyfeiriadau at baragraff 42(2) o Atodlen 6 i Reoliadau 2004. Fodd bynnag, nid yw'n glir ai'r bwriad yw mewnosod cyfeiriad at baragraff 56 o Atodlen 3 yn ei gyfanrwydd yn lle paragraff 42(2) o Atodlen 6, neu ai dim ond at is-baragraff o fewn paragraff 56 y dylai'r cyfeiriad newydd gyfeirio. Yn ogystal â hynny, nid yw'n glir ychwaith a ddylai'r cyfeiriad at baragraff 56 fod yn gyfeiriad at baragraff 55.

**53. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae paragraff 2(3)(c)(i) o Atodlen 5 yn diwygio Rheoliadau 2002 er mwyn rhoi cyfeiriadau at baragraff 102 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn yn lle'r cyfeiriadau at baragraffau 89A a 90 o

Atodlen 6 i Reoliadau 2004. Fodd bynnag, mae cynnwys paragraff 89A o Atodlen 6 yn debyg iawn i baragraff 101 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn, felly mae'n ymddangos y dylai'r cyfeiriad at baragraff 102 fod yn gyfeiriad at baragraff 101. Ar yr un sail, ymddengys fod paragraff 3(c)(ii) o Atodlen 5 yn cyfeirio'n anghywir at baragraff 103 o'r Rheoliadau hyn lle y dylai gyfeirio at baragraff 102.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**54. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Nodyn Esboniadol yn nodi bod y Rheoliadau yn nodi, ar gyfer Cymru, y fframwaith ar gyfer contractau gwasanaethau meddygol cyffredinol o dan adran 42 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, a ddiffinnir wedyn at ddiben gweddill y Nodyn Esboniadol fel "y Ddeddf". Mae'r Ddeddf y cyfeirir ati yn anghywir. Y Ddeddf gywir yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Er nad yw'r Nodyn Esboniadol yn rhan o'r Rheoliadau, sy'n cyfeirio at y Ddeddf gywir, gallai'r gwall hwn beri dryswch i'r darllenydd, yn enwedig gan fod Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 hefyd yn Ddeddf gan Senedd y DU. Mae defnyddio cyfeiriad anghywir ar gyfer term diffiniedig hefyd yn golygu bod gweddill y Nodyn Esboniadol yn cynnwys cyfeiriadau anghywir.

**55. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Daethpwyd o hyd i dros 100 o wallau teipograffyddol a gramadegol a gwallau yn y troednodiadau yn y Rheoliadau hyn, y rhoddwyd gwybod i swyddogion Llywodraeth Cymru amdanynt ar wahân. Yn benodol, er bod y Pwyllgor yn nodi nad ydynt yn rhan o'r Rheoliadau hyn eu hunain, mae troednodiadau'n ddefnyddiol i ddarllenwyr deddfwriaeth ond i'r graddau y maent yn gywir ac felly mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn gywir.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r holl bwyntiau adrodd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**19 Medi 2023**

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwyntiau Craffu Technegol a'r pwyntiau Craffu ar Rinweddau a godwyd ac mae wedi darparu ymatebion i bob pwynt isod. Yn ogystal â'r ymatebion, mae Llywodraeth Cymru yn dymuno rhoi gwybod i'r Pwyllgor y bydd O.S. diwygio yn cael ei gyflwyno cyn gynted â phosibl er mwyn cywiro'r pwyntiau hynny pan fo diwygiad neu eglurhad pellach wedi ei godi o dan y Rheolau Sefydlog.

**Pwynt Craffu Technegol1:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl, i gynnwys diffiniad o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 a throednodyn/troednodiadau yn y lle/lleoedd priodol yn y Rheoliadau.

**Pwynt Craffu Technegol 2:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl, fel a ganlyn:

Bydd rheoliad 2(a) ac Atodlen 6 yn cael eu diwygio fel bod cyfeiriadau at Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 yn darllen fel "Rheoliadau 2004".

Bydd rheoliad 17(1) yn cael ei ddiwygio a bydd y cyfeiriad at "gontract gwasanaethau meddygol cyffredinol" yn cael ei ddisodli gan "Gontract GMC".

Bydd paragraff 1(2)(a) a (3) o Atodlen 2 yn cael ei ddiwygio fel bod cyfeiriadau at "Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru" yn darllen fel "Iechyd Cyhoeddus Cymru".

**Pwynt Craffu Technegol 3:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl, a bydd penawdau'r adrannau yn cael eu cynnwys ar ôl pob cyfeiriad. Bydd y pennawd ar gyfer y cyfeiriad at adran 105 hefyd yn cael ei ddiwygio i 'rhestrau atodol'.

**Pwyntiau Craffu Technegol 4 a 5:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith yn y testun Cymraeg cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu Technegol 6:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl. Bydd y diffiniad yn cael ei ddiwygio er mwyn dileu "oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.".

**Pwynt Craffu Technegol 7:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu Technegol 8:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl. Bydd cyfeiriad yn cael ei wneud mewn troednodyn at y darpariaethau arbed perthnasol, y gellir dod o hyd iddynt yn Rheoliadau 2019, sy'n gymwys mewn amgylchiadau penodol.

**Pwynt Craffu Technegol 9:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith yn y testun Cymraeg cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu Technegol 10:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl. Bydd 'Cofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal' a 'Cofrestr y Cyngor Fferyllol Cyffredinol' yn cael eu diffinio yn y dehongliad (Rheoliad 3).

**Pwynt Craffu Technegol 11:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu Technegol 12:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl, a bydd cyfeiriad at y Gorchymyn cywir yn y diffiniad o "ffisiotherapydd-ragnodydd annibynnol".

**Pwynt Craffu Technegol 13:**

Mae'r rheoliadau yn adlewyrchu'r sefyllfa bolisi y cytunwyd arni a'r safonau hynny sy'n gymwys mewn perthynas â'r Contract GMC yng Nghymru fel y cytunwyd arnynt gyda Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru.

**Pwynt Craffu Technegol 14:**

Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

**Pwynt Craffu Technegol 15:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl er mwyn cyfeirio at adran 25(3).

**Pwyntiau Craffu Technegol 16, 17 a 18:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu Technegol 19:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith yn y testun Cymraeg cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu Technegol 20:**

Penderfyniad polisi yw hwn er mwyn sicrhau nad yw'r ddarpariaeth ond yn cynnwys y troseddau hynny sy'n dwyn dedfrydau o gyfnod o garchar am fwy na 6 mis (h.y. nid troseddau diannod).

**Pwynt Craffu Technegol 21:**

Mae'r dyddiad yn cyfeirio at y pryd y daeth Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002 i rym a'r pryd y cymerodd y ddarpariaeth benodol effaith.

**Pwynt Craffu Technegol 22:**

Mae'r dyddiad yn adlewyrchu'r pryd y daeth Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004 i rym.

**Pwynt Craffu Technegol 23:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl.

**Pwyntiau Craffu Technegol 24, 25, 26 a 27:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith yn y testun Cymraeg cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu Technegol 28:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith yn y testun Saesneg cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu Technegol 29:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu Technegol 30:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl, a bydd "gwasanaethau" yn cael ei ddiwygio i "gwasanaethau meddygol sylfaenol".

**Pwyntiau Craffu Technegol 31, 32 a 33:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith yn y testun Cymraeg cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu Technegol 34:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu Technegol 35:**

Mae'r ddarpariaeth hon yn hunanesboniadol; y dyddiad mynd yn fyw fydd y dyddiad y mae'r system GPE yn fyw ar gyfer y contractwr penodol. Ni fydd un dyddiad mynd yn fyw unffurf ar gyfer pob contractwr felly nid oes angen esboniad pellach.

**Pwyntiau Craffu Technegol 36, 37 a 38:**

Nodwyd.  Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu Technegol 39:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith yn y testun Cymraeg cyn gynted â phosibl.

**Pwyntiau Craffu Technegol 40, 41 a 42:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu Technegol 43:**

Mae'r rhain yn elfennau penodol hysbys o'r system lywodraethu i'r rhai a fydd yn defnyddio'r ddarpariaeth hon o'r Rheoliadau. Nid oes angen esboniad pellach.

**Pwynt Craffu Technegol 44:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu Technegol 45:**

Mae hon yn set o safonau a chanllawiau hysbys yn y proffesiwn ac mae'n glir. Nid oes angen esboniad pellach.

**Pwyntiau Craffu Technegol 46, 47 a 48:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i gywiro hyn yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu Technegol 49:**

Dim ond unwaith yn y diffiniad y mae'r rhif "6" yn ymddangos ar ei ben ei hun ac felly ystyrir ei fod yn glir. Pe buasai'n fwriad disodli'r rhif "2006" byddai'r rhif hwnnw wedi cael ei ddefnyddio.

**Pwynt Craffu Technegol 50:**

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) yn set o Reoliadau o 2020 yn hytrach na "2002". Fe'u diffinnir a chyfeirir atynt yn anghywir fel "Rheoliadau 2002" ym mhwyntiau dilynol yr adroddiad hwn. Bydd diwygiad i gywiro'r cyfeiriad at baragraff 53 yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu Technegol 51:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i hepgor y cyfeiriad at baragraff 61 yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu Technegol 52:**

Nodwyd; bydd y cyfeiriad paragraff anghywir yn cael ei ddiwygio. Fodd bynnag, mae'n fwriadol cyfeirio at y cyfan yn hytrach nag at yr is-adran.

**Pwynt Craffu Technegol 53:**

Nodwyd. Bydd diwygiad i hepgor y cyfeiriad at baragraff 61 yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 54:**

Nodwyd. Bydd hyn yn cael ei ddiwygio cyn gynted â phosibl.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 55:**

Nodwyd. Bydd y gwallau hyn yn cael eu cywiro pan fydd y rheoliadau'n cael eu diwygio cyn gynted â phosibl.

# SL(6)381 – Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 ("Deddf 2022") yn gwneud darpariaeth i ymdrin â gwahaniaethu ar sail oedran yng nghynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus. Gwnaed Deddf 2022 yn dilyn canfyddiad yn achos yr *Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref a Gweinidogion Cymru v Sargeant ac Eraill* [2018] EWC Civ 2844 fod diogelwch trosiannol mewn cynlluniau pensiwn diwygiedig i ddiffoddwyr tân yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oedran. O ran Cymru, roedd y darpariaethau hynny wedi eu nodi yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015.

Gweithredwyd cam cyntaf y rhwymedi a nodir yn Neddf 2022 gan Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2022 (O.S. 2022/343 (Cy. 85)).

Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredu ail gam y rhwymedi a nodir yn Neddf 2022.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn**

Yn nhestun Cymraeg rheoliad 23(2)(b), ymddengys y dylai "a'r swm amgen" ddweud "ac mae'r swm amgen".

Ymddengys fod testunau Cymraeg a Saesneg rheoliad 29(1)(a) yn wahanol – ymddengys fod y testun Cymraeg yn gywir gan ei fod yn cyfeirio'n benodol at ysgariad **neu** ddirymiad A.

Yn nhestun Cymraeg rheoliad 39(2), ymddengys y dylai "pe bai'r hawliau hynny" ddweud "pe bai'r hawliau hynny wedi bod".

Yn nhestun Cymraeg rheoliad 41(4), ymddengys y dylai "adran 89(1)" ddweud "adran 86(1)".

Ymddengys fod testunau Cymraeg a Saesneg rheoliad 46 yn wahanol. Ar ddiwedd y rheoliad, mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at yr amod nad yw'r dyddiad perthnasol yn hwyrach na 1 Hydref 2024, tra bo'r testun Saesneg yn cyfeirio at yr amod bod y dyddiad perthnasol yn hwyrach na 1 Hydref 2024.

Yn nhestun Cymraeg rheoliad 65(4), ymddengys y dylai "gwasanaeth adferadwy" ddweud "gwasanaeth rhwymedïol".

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Diffinnir y term "diwedd y cyfnod dewisiad adran 6" mewn troednodyn i reoliad 10(5) drwy gyfeirio at Ddeddf 2022. Fodd bynnag, defnyddir y term "diwedd y cyfnod dewisiad adran 6" gyntaf yn rheoliad 4(4)(a), heb gyfeirio'r darllenydd at ble mae dod o hyd i'r diffiniad.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam nad yw'r troednodyn sy'n cynnwys y diffiniad wedi'i gynnwys yn rheoliad 4(4)(a) i gyd-fynd â'r cyfeiriad cyntaf at "diwedd y cyfnod dewisiad adran 6".

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 22(2), mae geiriau cloi'r diffiniad o "swm cynllun gwaddol" yn cyfeirio at "adran 29(2)" ond nid yw'n glir at ba ddeddfwriaeth y mae'n cyfeirio.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 32 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau rhwymedïol i dalu cyfraniadau gwirfoddol. Caiff aelod rhwymedi ymrwymo i gytundeb i dalu cyfraniadau gwirfoddol i gynllun gwaddol yr aelod ar gyfer buddion ychwanegol (gweler rheoliad 32(2)). Mae rheoliad 32(3)(b) yn nodi na chaiff yr aelod ond ymrwymo i gytundeb o'r fath os (ymhlith materion eraill):

> *"yw'r rheolwr cynllun wedi ei fodloni ei bod yn fwy tebygol na pheidio y byddai A, yn ystod cyfnod gwasanaeth rhwymedïol A, oni bai am achos perthnasol o dorri rheol peidio â gwahaniaethu, wedi ymrwymo i'r un trefniant neu i drefniant tebyg,"*

Nid yw'n glir o'r ddarpariaeth sut y mae'r rheolwr cynllun i'w fodloni mai dyma'r sefyllfa, a pha faterion a fyddai'n dueddol o fodloni rheolwr cynllun ynghylch y sefyllfa. Nodwn y gofyniad yn rheoliad 32(4)(b) i ddarparu unrhyw wybodaeth y mae'r rheolwr cynllun yn rhesymol yn ei gwneud yn ofynnol ei darparu iddo. Fodd bynnag, nid yw hyn yn egluro'r amgylchiadau a fyddai'n caniatáu i'r rheolwr cynllun wneud y penderfyniad hwn, dim ond y bydd angen yr wybodaeth i ganiatáu i hynny ddigwydd.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2023. Fodd bynnag, maent yn gwneud darpariaeth ôl-weithredol. Mae paragraff 2.2 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

> *"2.2 Mae'r Rheoliadau hyn … yn gwneud darpariaeth ôl-weithredol o ganlyniad i'r dychweliad ôl-weithredol i gynlluniau pensiwn gwaddol ar gyfer gwasanaeth rhwymedïol diffoddwyr tân o dan adran 2(1) o [Ddeddf 2022]. Gwneir darpariaeth ôl-weithredol yn y Rheoliadau hyn yn unol ag adran 3(3)(b) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013…"*

**6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth dechnegol gymhleth ynghylch pensiynau diffoddwyr tân. Nodir y gellid bod wedi gwneud mwy i wneud y Rheoliadau hyn yn hygyrch i'r darllenydd.

Er enghraifft, mae Rhan 4 o'r Rheoliadau yn cyfeirio droeon at "DDLlPh 1999". Y tro cyntaf y defnyddir y term hwn, mae troednodyn yn dweud wrth y darllenydd mai ystyr "DDLlPh 1999", yn unol â'r diffiniad o "WRPA 1999" yn adran 110(1) o Ddeddf 2022, yw Deddf Diwygio Lles a Phensiynau 1999. Gan ei bod yn ymddangos bod y Ddeddf hon yn ganolog i ddehongli Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn, byddai'n fwy hygyrch pe bai "DDLlPh 1999" wedi'i ddiffinio yn y Rheoliadau eu hunain.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 25 Medi 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) 2023**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y Pwyllgor wedi codi nifer o bwyntiau unigol o dan y pennawd hwn. Ymdrinnir â phob pwynt yn unigol isod:

- Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y gallai "a'r swm amgen" fod wedi dweud "ac mae'r swm amgen". Fodd bynnag, rydym o'r farn bod y geiriau a ddefnyddir yn briodol eglur i'r darllenydd.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y testunau Cymraeg a Saesneg yn rheoliad 29(1)(a) yn wahanol yn ramadegol ac mai'r testun Cymraeg yw'r drafftio a ffefrir. Wedi dweud hynny, rydym o'r farn bod ystyr y drafftio Saesneg yn eglur ac mae effaith gyfreithiol y ddarpariaeth yn gyson â'r fersiwn Gymraeg.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai cynnwys y geiriau "wedi bod" yn gyfieithiad uniongyrchol o'r testun Saesneg, ond mae o'r farn bod yr "wedi bod" yn cael ei awgrymu gan "pe bai" a bod y testun Cymraeg yn briodol eglur.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r croesgyfeiriad yn rheoliad 41(4) ddweud "adran 86(1)" ac nid "adran 89(1)". Caiff hyn ei ddiwygio pan fydd y cyfle nesaf yn codi.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod y testunau Cymraeg a Saesneg yn rheoliad 46 yn wahanol. Mae'r testun Saesneg yn gywir a bydd y testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio pan fydd y cyfle nesaf yn codi.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai "gwasanaeth adferadwy" yn rheoliad 65(4) o'r testun Cymraeg ddweud "gwasanaeth rhwymedïol". Caiff hyn ei ddiwygio pan fydd y cyfle nesaf yn codi.

**Pwynt Craffu Technegol 2:** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y byddai o fwy o gymorth i ddarllenydd pe bai'r troednodyn sy'n cyfeirio at y diffiniad o'r term "diwedd y cyfnod dewisiad adran 6" lle defnyddir y term gyntaf, yn hytrach na lle y'i defnyddir yr ail dro.

Serch hynny, ym marn Llywodraeth Cymru, er bod cyfeiriad o'r fath o fudd i'r darllenydd, nid oes angen hynny ar y darllenydd fel esboniad i ddeall ystyr y term hwn. Wrth ystyried ystyr term penodol yn y Rheoliadau hyn, bydd y darllenydd yn rhoi sylw i'r darpariaethau dehongli cyffredinol yn rheoliad 2. O ganlyniad, bydd y darllenydd yn ymwybodol o reoliad 2(3) fod yn rhaid iddo roi sylw i dermau a ddiffinnir ym Mhennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 er mwyn deall nifer o dermau a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn.

**Pwynt Craffu Technegol 3:** Ym marn Llywodraeth Cymru, mae yn eglur, yng nghyd-destun rheoliad 22, mai'r Ddeddf y cyfeirir ati mewn perthynas â'r ail achos o grybwyll "adran 29(2)" yn rheoliad 22(2) yw DDLlPh 1999 oherwydd cyfeirir at y Ddeddf hon yn gynharach yn y ddarpariaeth. Yn ogystal, cyfeirir at "adran 29(2) o DDLlPh 1999" bum

gwaith yn rheoliad 22 a chyfeirir at "adran 29(3) o DDLIPh 1999" ddwywaith. Ni chyfeirir at unrhyw Ddeddf arall yn y rheoliad hwnnw.

**Pwynt Craffu Technegol 4:** Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi nad yw rheoliad 32 yn pennu'r union faterion a all tueddu i fodloni rheolwr cynllun ynghylch y tebygolrwydd y byddai aelod rhwymedi wedi ymrwymo i drefniant pensiwn blynyddoedd ychwanegol yn flaenorol, pe na bai'r gwahaniaethu ar sail oedran wedi digwydd.

Rhoddir y pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer trefniadau rhwymedïol i brynu blynyddoedd ychwanegol yng nghynllun pensiwn gwaddol aelod gan adran 25(1) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022. Pan fo awdurdod cyfrifol (Gweinidogion Cymru yn yr achos hwn) yn dymuno gwneud darpariaeth o'r fath, mae adran 25(3) o'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddarpariaeth ond caniatáu i aelod rhwymedi ymrwymo i drefniadau o'r fath "if the scheme manager is satisfied that it is more likely than not that, but for a relevant breach of a non-discrimination rule, M would, during the period of M's remediable service in the employment or office, have entered into the same or similar arrangements'.

Ym marn Llywodraeth Cymru mae'n briodol rhoi disgresiwn i'r rheolwr cynllun o dan yr amgylchiadau hyn. Gall y ffactorau sy'n bodloni'r rheolwr cynllun ynghylch tebygolrwydd gweithredoedd aelod rhwymedi yn y gorffennol ddibynnu ar amgylchiadau personol yr unigolyn o dan sylw. Mae'n debygol y bydd y rheolwyr cynllun unigol yn cadw cofnodion ar yr aelod rhwymedi penodol, ac yn y sefyllfa orau i benderfynu pa wybodaeth bellach, os o gwbl, y gallai fod ei hangen oddi wrth yr aelod rhwymedi mewn unrhyw achos penodol.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 5:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y Rheoliadau hyn i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 21.3(ii), ar y sail eu bod yn gwneud darpariaeth ôl-weithredol. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod darpariaeth o'r fath yn ganlyniad angenrheidiol i effaith ôl-weithredol Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 6:** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth dechnegol gymhleth. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio taro cydbwysedd rhwng hygyrchedd y Rheoliadau hyn i'r darllenydd lleyg ac effeithiolrwydd eu darpariaethau yng nghyd-destun ymarfer rhwymedi pensiynau ôl-weithredol cymhleth sy'n cael effaith ar nifer o gynlluniau pensiwn statudol.

Mae gwneud y Rheoliadau hyn yn dilyn cyfnod ymgynghori cyhoeddus o 12 wythnos. Cafodd y ddogfen ymgynghori ei drafftio mewn ffordd i'w gwneud yn hygyrch i aelodau cynllun cyffredin, er enghraifft drwy ddefnyddio enghreifftiau credadwy a chynnwys geirfa lawn o dermau technegol, a groesawyd gan gyflogwyr a chyrff cynrychioliadol diffoddwyr tân. Yn ystod y cyfnod hwnnw, ymgysylltodd nifer o randdeiliaid ac aelodau

cynllun unigol â'r ymgynghoriad. Yn sgil sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod hwnnw bu modd i Lywodraeth Cymru wella drafftio'r Rheoliadau hyn.

Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi y gall cymhlethdod yr ymarfer rhwymedi, ynghyd â gofynion a osodir yn uniongyrchol gan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 a Chyfarwyddydau Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus (Arfer Pwerau, Digolledu a Gwybodaeth) 2022, wneud y Rheoliadau hyn yn llai hygyrch i ddarllenwyr lleyg nag offerynnau eraill.

O ran pwynt penodol y Pwyllgor am gyfeiriadau at "DDLlPh 1999", ym marn Llywodraeth Cymru mae'r troednodyn sy'n cyfeirio at y diffiniad o'r term o gymorth i'r darllenydd, ac felly hygyrchedd y darpariaethau penodol hyn. Ystyrir bod cyfeiriadau o'r fath yn y Rheoliadau hyn yn arbennig o briodol ar y sail bod yn rhaid i ddarllenydd roi sylw i Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 beth bynnag os yw am ddeall gweithrediad yr ymarfer rhwymedi hwn yn llawn.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru
Cc Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

25 Medi 2023

Annwyl Huw,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo**

Ysgrifennaf yn dilyn fy llythyr dyddiedig 21 Mehefin, ac yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, i adrodd ar ail gyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo, a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf.

Yn bresennol yn y cyfarfod roedd yr Ysgrifennydd Gwladol, y Gwir Anrh Suella Braverman CB AS, fel y Cadeirydd, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban dros Gyfiawnder Cymdeithasol Shirley-Anne Somerville ASA, ac Uwch-swyddogion Gogledd Iwerddon Cathy Galway a Julie Cummings.

Roedd y cyfarfod yn gyfle imi fynegi'r pryderon sydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch agweddau ar y Bil Mudo Anghyfreithlon ac oedi Llywodraeth y DU o ran prosesu ceisiadau am loches. Codais hefyd bryderon o ran y materion parhaus sy'n ymwneud â llety.

Yn ogystal â'r trafodaethau am fudo, amlygais yr angen am well ymgysylltu a rhannu data ar bob agwedd ar Ddiogelwch a Diogelwch Gwladol i sicrhau dull cydweithredol llwyddiannus o fynd i'r afael â throseddau cyffuriau a bygythiadau diogelwch gwladol ledled y DU.

Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd a rhoddaf wybod ichi pan fydd dyddiad wedi'i bennu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae rhagor o wybodaeth am y cyfarfod ar gael yma*:* Interministerial Group for Safety, Security and Migration Communiqué: 11 July 2023 - GOV.UK (www.gov.uk).

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo** |
| **DYDDIAD** | **25 Medi 2023** |
| **GAN** | **Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip** |

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, rwy'n eich hysbysu imi fynd i ail gyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo, a gynhaliwyd yn rhithiol ar 11 Gorffennaf, ac a ddaeth ag aelodau o'r pedair llywodraeth ynghyd.

Yn bresennol yn y cyfarfod yr oedd yr Ysgrifennydd Cartref, y Gwir Anrhydeddus Suella Braverman KC AS, a oedd yn ei gadeirio, ac Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Shirley-Anne Somerville ASA. Roedd Uwch Swyddogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon ac Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon hefyd yn bresennol yn absenoldeb y Gweinidogion.

Mynegais fy siom yn y cyfarfod nad oedd Llywodraeth y DU wedi ystyried pleidlais y Senedd i wrthod cydsynio i'r Bil Mudo Anghyfreithlon. Amlygais y pryderon sydd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r effaith negyddol y bydd y Bil yn ei chael ar blant ar eu pen eu hunain yng Nghymru sy'n ceisio lloches, a'r angen inni fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu canllawiau i sicrhau nad yw deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn cael eu tanseilio.

Yn ystod y cyfarfod, roeddwn i hefyd wedi ailbwysleisio nod Llywodraeth Cymru i Gymru fod yn Genedl Noddfa a'n hymrwymiad parhaus i symud ceiswyr lloches i ardaloedd gwasgaru a sicrhau cydlyniant cymunedol – gan gynnwys pa mor hanfodol yw cyfathrebu trylwyr a chyson rhwng darparwr preifat y Swyddfa Gartref ac Awdurdodau Lleol, er mwyn sicrhau bod Cymru'n cyrraedd ei tharged o ran llety. Soniais am y pryderon ynghylch y ffaith bod hyd y cyfnod i brosesu ceisiadau lloches yn cynyddu, a'r effaith negyddol y mae hynny yn ei chael ar y ceiswyr lloches a'r economi. Mewn cysylltiad â hynny, gofynnais unwaith eto am adolygiad o bolisi presennol Llywodraeth y DU sy'n atal ceiswyr lloches rhag gweithio am y deuddeng mis cyntaf ar ôl dod i'r DU.

Canmolais y gwaith caled sy'n cael ei wneud gan swyddogion Llu'r Ffiniau i fynd i'r afael â'r mewnlifiad cynyddol o gyffuriau anghyfreithlon i'r DU, a chroesawais y gwaith presennol sy'n cael ei wneud i ddatblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth â Llywodraeth Cymru i wella arferion rhannu gwybodaeth. Mynegais y byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan ym mhob achos sy’n ymwneud â throseddu a rhoddais sylw i fanteision defnyddio dull cydweithredol wrth fynd i'r afael â throseddu a bygythiadau i Ddiogelwch Cenedlaethol.

Mae cyd-hysbysiad byr wedi’i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU: Interministerial Group for Safety, Security and Migration Communiqué: 11 July 2023 (Saesneg yn Unig)

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomy@senedd.cymru

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@senedd.cymru

25 Medi 2023

Annwyl Paul, Huw

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi fy mod wedi bod yng nghyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach ddydd Iau 7 Medi.

Roedd Nigel Huddleston, y Gweinidog Gwladol yn yr Adran Busnes a Masnach; Richard Lochhead, y Gweinidog Busnesau Bach, Masnach ac Arloesi yn Llywodraeth yr Alban, a Gweinidogion o Swyddfeydd Cymru a Gogledd Iwerddon yn bresennol.

Buom yn trafod yr wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau ar Gytundeb Masnach Rydd India a Chanada, yn ogystal â'r datblygiadau diweddaraf o ran aelodaeth y DU o Bartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel. Bydd cyd-hysbyiad am y cyfarfod yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto i roi gwybod ichi am ddyddiad y cyfarfod nesaf.

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Grŵp Rhyng-weinidogol ar gyfer Masnach** |
| **DYDDIAD** | **25 Medi 2023** |
| **GAN** | **Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi** |

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, gallaf adrodd i'r Aelodau fy mod yn bresennol yn y Grŵp Masnach Rhyngweinidogol ar 7 Medi.

Yn bresennol yn y cyfarfod roedd:

- Y Gweinidog Huddleston, Adran Busnes a Masnach Llywodraeth y DU.
- Y Gweinidog Lochhead, y Gweinidog Busnesau Bach, Arloesi a Masnach, Llywodraeth yr Alban.
- Roedd gweinidogion Swyddfa Cymru a Swyddfa Gogledd Iwerddon hefyd yn bresennol.

Mae'r Grŵp Masnach Rhyngweinidogol yn darparu'r prif fforwm i drafod materion polisi masnach rhwng Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru.

Yn y cyfarfod, buom yn trafod llofnodi'r Cytundeb Partneriaeth Traws-Môr Tawel Cynhwysfawr a Chynyddol yn ddiweddar, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf ar drafodaethau'r Cytundeb Masnach Rydd parhaus gydag India a Chanada.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.wales

25 Medi 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Medi ynghylch y rheoliadau I weithredu Fframwaith Windsor. Mae fy ymatebion i'ch cwestiynau penodol wedi'u nodi isod.

***Mae Rheoliad 6 o Reoliadau Fframwaith Windsor (Gorfodi etc.) 2023 yn diwygio testun Cymraeg Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020. I ba raddau y bu Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r gwaith o ddrafftio'r rheoliad hwn?***

Bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwneud â holl gamau'r broses, gan gynnwys cymeradwyo'r testun Cymraeg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

***Gwnaethoch ddweud y canlynol yn eich datganiad ysgrifenedig mewn perthynas â Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu) 2023: "Rhoddir swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol a bydd rhaglen lywodraethu yn galluogi swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y swyddogaethau hyn yn cael eu harfer mewn modd sy'n adlewyrchu buddiannau Cymru. Yn ogystal, bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi proses gytundeb i weithredu ar gyfer unrhyw newidiadau posibl i'r Cynllun [Symud Nwyddau Manwerthu] yn y dyfodol. A allech roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y rhaglen lywodraethu a, phan fydd wedi'i gwblhau, allech chi ddarparu copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yr ydych yn cyfeirio ato?***

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Fframwaith Windsor (y Memorandwm) yn nodi'r ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt sydd i'w harfer rhwng pob un o'r Partïon, ynghyd â rolau a chyfrifoldebau'r naill a'r llall ar gyfer gweithredu, cyflawni a gorfodi'r Cynllun Symud Manwerthu (NIRMS) a Label Iechyd Planhigion Gogledd Iwerddon (NIPHL).

O ran trefniadau llywodraethiant, llofnodwyr arfaethedig y Memorandwm yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig; Llywodraeth Cymru; Llywodraeth yr Alban; Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon; yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn yr Alban. Mae'r Memorandwm yn pennu cyfrifoldebau'r Partïon a'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer y cydweithio rhyngddynt.

Bydd cynrychiolwyr y llofnodwyr i'r ddogfen yn cwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn i drafod y gweithgareddau a gyflawnir o dan y Memorandwm, gweithredu'r Memorandwm a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau sy'n codi. Byddant hefyd yn cytuno ar ba un a ddylid ymgorffori meysydd polisi na chytunwyd arnynt eto, a sut i wneud hynny.

Er mwyn cyflawni'r dyddiad mynd yn fyw, sef 1 Hydref, mae swyddogion wedi llofnodi copi drafft o'r Memorandwm, sy'n darparu ar gyfer rhannu data. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gadarnhau fersiwn 1 o'r Memorandwm, a bwriedir ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru pan fydd yr holl lywodraethau wedi cytuno arno ar y cyd. Byddaf yn rhannu'r fersiwn hon â'r pwyllgor pan fydd wedi'i chyhoeddi.

***Yn ei Phapur Gorchymyn ar Fframwaith Windsor, dywedodd Llywodraeth y DU y bydd angen deddfwriaeth i roi ei threfniadau ar waith ymhellach, gan gynnwys adfer darpariaethau Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 a ddaeth i ben yn ystod taith wreiddiol y Bil yn 2020. A allech chi roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am unrhyw gynlluniau neu gynigion deddfwriaethol yr ydych yn ymwybodol ohonynt i roi Fframwaith Windsor ar waith, a chadarnhad o ba drafodaethau rhynglywodraethol, os o gwbl, sydd wedi'u cynnal yn hyn o beth?***

Mae swyddogion yn ymwneud â chynlluniau sy'n datblygu'r ddeddfwriaeth ar gyfer y cynllun teithio anifeiliaid anwes, sy'n gynllun gydol oes ac yn debyg i'r pasbort anifeiliaid anwes sy'n caniatáu i anifeiliaid anwes symud yn rhydd rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Rhaid i anifeiliaid anwes fod â microsglodyn arnynt a rhaid i berchnogion ddatgan ar adeg archebu nad ydynt yn teithio ymlaen i Ogledd Iwerddon. Nid oes unrhyw drafodaethau wedi digwydd ynghylch adfer darpariaethau yn Neddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020.

Cofion,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

18 Medi 2023

Annwyl Lesley,

Rheoliadau i weithredu Fframwaith Windsor

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Gorffennaf 2023 mewn ymateb i'm llythyr dyddiedig 7 Gorffennaf, ac ar gyfer eich llythyrau dilynol mewn perthynas â'r rheoliadau a ganlyn sydd wedi'u gosod yn Senedd y DU:

- Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Iechyd y Cyhoedd, Safonau Cynnyrch Marchnata ac Organig a Darpariaethau Amrywiol) Drafft 2023
- Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu) 2023;
- Rheoliadau Fframwaith Windsor (Gorfodi etc.) drafft 2023;
- Rheoliadau Fframwaith Windsor (Iechyd Planhigion) 2023; a
- Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cymorth Ariannol) (Marcio Nwyddau Manwerthu) 2023.

Yn ei gyfarfod ar 11 Medi 2023, nododd fy Mhwyllgor y llythyrau hyn a'r datganiadau ysgrifenedig cysylltiedig, lle gwnaethoch gadarnhau eich bod wedi rhoi eich cydsyniad i'r rheoliadau gynnwys darpariaeth mewn perthynas â Chymru, ac amlinellu eich rhesymau dros wneud hynny.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb i fy nghwestiynau mewn cysylltiad â'r rheoliadau, sydd wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r llythyr hwn, erbyn 28 Medi 2023.



**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

Yn gywir



Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

## Atodiad

1. Mae Rheoliad 6 o Reoliadau Fframwaith Windsor (Gorfodi etc.) 2023 yn diwygio testun Cymraeg Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020. I ba raddau y bu Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r gwaith o ddrafftio'r rheoliad hwn?

2. Gwnaethoch ddweud y canlynol yn eich datganiad ysgrifenedig mewn perthynas â Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu) 2023:

   *"Rhoddir swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol a bydd rhaglen lywodraethu yn galluogi swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y swyddogaethau hyn yn cael eu harfer mewn modd sy'n adlewyrchu buddiannau Cymru. Yn ogystal, bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi proses gytundeb i weithredu ar gyfer unrhyw newidiadau posibl i'r Cynllun [Symud Nwyddau Manwerthu] yn y dyfodol.*

   A allech roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y rhaglen lywodraethu a, phan fydd wedi'i gwblhau, allech chi ddarparu copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yr ydych yn cyfeirio ato?

3. Yn ei Phapur Gorchymyn ar Fframwaith Windsor, dywedodd Llywodraeth y DU y bydd angen deddfwriaeth i roi ei threfniadau ar waith ymhellach, gan gynnwys adfer darpariaethau Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 a ddaeth i ben yn ystod taith wreiddiol y Bil yn 2020. A allech chi roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am unrhyw gynlluniau neu gynigion deddfwriaethol yr ydych yn ymwybodol ohonynt i roi Fframwaith Windsor ar waith, a chadarnhad o ba drafodaethau rhynglywodraethol, os o gwbl, sydd wedi'u cynnal yn hyn o beth?

Eitem 4.4

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

27 Medi 2023

Annwyl Huw,

Yn ychwanegol at fy llythyr diweddar yn rhoi gwybod ichi am gyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid a gynhaliwyd ar 20 Medi yn Llundain, ac a gadeiriwyd gennyf, hoffwn roi adroddiad cryno ichi ar y trafodaethau a gafwyd. Hefyd cyhoeddwyd neges ar ôl y cyfarfod hwnnw: Cyllid: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol – 20 Medi 2023 - GOV.UK (www.gov.uk)

Roedd y Gwir Anrhydeddus John Glen AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, a Shona Robison ASA, Dirprwy Brif Weinidog yr Alban ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn bresennol gyda mi. Fe wnaeth swyddogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon fynychu'n rhithiol i arsylwi.

Yn ychwanegol at gam gweithredu o'r cyfarfod blaenorol, cytunodd yr holl Weinidogion ar Gylch Gorchwyl a Phrotocolau Gweithredu diwygiedig Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllida a adolygwyd gan swyddogion dros yr haf: Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid - GOV.UK (www.gov.uk)

Roedd y rhan gyntaf o'r cyfarfod yn canolbwyntio ar flaenoriaethau economaidd a chyllidol. Cafwyd sgwrs am bwysau ariannu, gan gynnwys Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC). Amlinellais yr angen am eglurder pellach o ran penderfyniadau gwariant sydd wedi'u gwneud yn Lloegr a goblygiadau'r rhain ar gyfer setliad ein cyllideb, yn enwedig mewn perthynas â chyflogau yn y GIG. Cyflwynais yr achos hefyd dros fwy o hyblygrwydd, gan gynnwys pwyso am i newidiadau i derfynau benthyca a chronfeydd wrth gefn a wnaed i Fframwaith Cyllid Llywodraeth yr Alban gael eu cymhwyso yn awtomatig i Gymru.

Yn ystod trafodaeth ar Ddatganiad yr Hydref Llywodraeth y DU, pwysleisiais oblygiadau'r amseru hwyr ar gyfer cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran yr amserlen fer ar gyfer craffu gan y Senedd.  Gofynnais am gyfarfod yn agosach at y datganiad i drafod unrhyw ddatblygiadau a blaenoriaethau. Nodais y byddai'n ddefnyddiol deall canlyniad

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Adolygiad Llywodraeth y DU o Gynhyrchiant ac unrhyw oblygiadau y gallai hyn eu cael ar gyfer ein setliad cyllidebol.

Roedd yr ail ran o'r cyfarfod yn canolbwyntio ar ddiogelwch ynni. Crybwyllais adroddiad Gridiau Ynni Cymru yn y Dyfodol, sy'n ddefnyddiol wrth fanylu ar yr achos brys dros fuddsoddi yn seilwaith y rhwydwaith a gridiau. Trafodwyd gwelliannau i becyn ariannu Contractau ar gyfer Gwahaniaeth, sy'n darparu cymorth ar gyfer technolegau adnewyddadwy sy'n dod i'r amlwg. Codais yr angen hefyd am fuddsoddiad gan Lywodraeth y DU mewn seilwaith porthladdoedd i gefnogi defnyddio Gwynt Arnofiol ar y Môr yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth yr Alban yn cynnal y cyfarfod nesaf, ym mis Ionawr.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Eitem 4.5

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/318/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

27 Medi 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Medi mewn perthynas â Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr Fflworedig (Diwygio) 2023.

Rwy'n croesawu adborth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y mater hwn ac rwyf wedi ymateb i'ch cwestiynau yn yr atodiad atodedig i'r llythyr hwn.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad

**1(i). A fyddech cystal â chadarnhau a rhoi manylion y broses gydsynio a ddilynwyd mewn perthynas â'r Rheoliadau.**

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i beidio â defnyddio pwerau a nodir yn y ddeddfwriaeth i wneud darpariaethau y gallai Llywodraeth ddatganoledig eu gwneud heb eu caniatâd. Fel y gwyddoch o'm llythyr at Bwyllgor yr LJC ar 1 Medi, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau y gallai Gweinidogion Cymru eu gwneud drwy arfer eu pwerau eu hunain. Yn benodol, mae'r pwerau galluogi o dan Adran 14(2) o'r Ddeddf REUL yn caniatáu i Awdurdod Cenedlaethol (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf) ddeddfu naill ai'n unigol neu ar y cyd i ddirymu unrhyw gyfraith UE eilaidd a ddargedwir a rhoi darpariaeth yn ei lle fel y mae'n ystyried sy'n briodol. Gofynnwyd am ganiatâd Gweinidogion Cymru ar y sail hon.

Yn yr achos hwn, rhoddwyd amserlen dynn iawn i Weinidogion Cymru ystyried cydsynio, yng nghyd-destun cynlluniau Llywodraeth y DU i osod y Rheoliadau. Gweithiodd fy swyddogion gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU i ddeall canlyniadau a goblygiadau cadw caniatâd yn ôl, neu beidio â chydsynio mewn pryd, yn ogystal â'r gwahanol senarios a allai ddilyn. Pe bai Gweinidogion Cymru wedi gwrthod cydsynio, neu heb gadarnhau eu penderfyniad yn yr amserlenni y gofynnwyd amdanynt, ni fyddai'r Rheoliadau wedi'u gosod gerbron Senedd y DU.

O ganlyniad, byddai gwerthoedd cyfeirio ar gyfer 2024-26 wedi gorfod cael eu cyfrifo yn seiliedig ar ddata 2021, yn unol â'r ddeddfwriaeth, a bydd maint cwota fyddai ar gael i fusnesau yn lleihau'n sylweddol. Gallai'r dirywiad graddol difrifol, cynamserol ac annisgwyl hwn arwain at broblemau cyflenwi posibl ar gyfer sectorau hanfodol, heb ddigon o amser i ddod o hyd i ddewisiadau amgen.

**1(ii). A fyddech cystal â chadarnhau yr ymgynghorwyd â Gweinidogion Cymru ar delerau'r Rheoliadau fel rhan o'r strwythurau fframwaith cyffredin perthnasol, fel yr awgrymir yn y Memorandwm Esboniadol drafft i'r Rheoliadau.**

Gallaf gadarnhau yr ymgynghorwyd â Gweinidogion Cymru ar delerau'r Rheoliadau drwy'r Sylweddau Diffygiol Osôn a Nwyon Tŷ Gwydr Fflworinedig UK Common

Fframwaith. Mae'r manylion yn y Memorandwm Esboniadol drafft yn rhoi esboniad cywir o'r broses a ddilynwyd.

**2 (i). A fyddech cystal â chadarnhau ein dealltwriaeth nad yw'r Rheoliadau yn arwain at ddirymu neu amnewid REUL na'i gymhathu i'r llyfr statud domestig.**

Fel y nodwyd yn briodol yn eich llythyr, gwnaed y Rheoliadau hyn o dan adran 14(2) o'r Ddeddf REUL. Roedd y cyfeirio, yn fy llythyr ar 1 Medi, at y Rheoliadau a wnaed o dan baragraff 5(5) o Atodlen 5, at y broses seneddol y cynigiwyd craffu a chytuno ar y Rheoliadau drwyddi. Mae rheoliadau a wneir o dan adran 14(2) o'r Ddeddf REUL yn ddarostyngedig i'r gofynion hyn.

Gallaf gadarnhau bod y Rheoliadau yn diwygio Erthygl 16(3) o Reoliad F-Gas yr UE a ddargedwir (UE) Rhif 517/2014 ar nwyon tŷ gwydr wedi'u fflworeiddio. Nid yw hyn yn arwain

at ddisodli Rheoliad gwreiddiol yr UE yn llwyr. Mae'r Rheoliad hwnnw'n parhau i gael ei ystyried yn gyfraith yr UE a ddargedwir tan ddiwedd 2023 ac ar yr adeg honno bydd cyfraith o'r fath yn cael ei galw'n 'gyfraith a gymathwyd' (gweler adran 5 o Ddeddf REUL 2023). Caiff rhai o nodweddion cyfraith yr UE sy'n dylanwadu ar sut y caiff cyfraith o'r fath ei dehongli a'i chymhwyso gan lysoedd domestig eu tynnu oddi ar gyfraith a gymathwyd. Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys yr egwyddor o oruchafiaeth cyfraith yr UE, dehongli cyson, effaith uniongyrchol a hawliau effeithiol uniongyrchol, ac egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE (gweler adrannau 2 - 4 o Ddeddf REUL 2023).

**2(ii). Cyn gwneud penderfyniad i gydsynio i'r Rheoliadau, a wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal unrhyw asesiad o'r pŵer penodol yn Neddf REUL yn cael ei ddefnyddio i wneud y Rheoliadau?**

Gwnaed asesiad o natur y pwerau galluogi arfaethedig a gynhwysir yn adran 14(2) o'r Ddeddf REUL. Rhoddwyd ystyriaeth i'r posibilrwydd o wneud OS Cymru yn unig. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn fy llythyrau blaenorol, ystyriwyd ei bod yn briodol i sylwedd y gwelliannau a wnaed gan OS y DU fod yn berthnasol i Gymru gan nad oedd gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (a Llywodraeth yr Alban) ar y mater hwn.

Ni ddaeth y Ddeddf REUL i rym tan 29 Mehefin, ac ar ôl hynny rhoddwyd ystyriaeth amser i gymhwysedd y pwerau galluogi a gynhwysir ynddo. Yn dilyn hynny, nid oedd digon o amser i baratoi a gosod OS Cymreig a'i gael mewn grym yng Nghymru erbyn 31 Hydref. O ganlyniad, byddai methu â gwneud OS Cymreig yn y senario hwnnw o bosibl wedi arwain at systemau Prydain ar gyfer dyrannu cwota yn anweithredol.

**2(iii). Ein dealltwriaeth ni yw bod paragraff 5(5) o Atodlen 5 i Ddeddf REUL yn rhoi'r opsiwn i Weinidog y DU ddefnyddio'r drafft cadarnhaol neu wneud gweithdrefn negyddol. Cyn gwneud penderfyniad i gydsynio i'r Rheoliadau, a wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal unrhyw asesiad o'r dewis o weithdrefn graffu sy'n cael ei dilyn gan Lywodraeth y DU?**

Mae yr union lwybr y mae Senedd y DU yn ei ddefnyddio i wneud rheoliadau yn fater i Lywodraeth y DU a Gweinidogion y DU. Fodd bynnag, gallaf gadarnhau bod y gweithdrefnau cadarnhaol drafft a negyddol wedi eu hystyried fel rhan o drafodaethau arferol a gynhaliwyd o dan y trefniadau fframwaith cyffredin.

Cynigiwyd y weithdrefn ddatrys gadarnhaol gan Lywodraeth y DU fel yr opsiwn a ffefrir oherwydd gofynion amser er mwyn i'r Rheoliadau ddod i rym erbyn 31 Hydref, ac fel y llwybr mwy diogel ar gyfer osgoi unrhyw oedi posibl yn y dyfodol. Roedd swyddogion yn cefnogi'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft gan ei bod yn rhoi mwy o graffu trwy ddadleuon seneddol.

**2(iv). Byddwch yn ymwybodol bod y pwerau yn adran 14 o'r Ddeddf REUL yn cael eu cyfyngu i ddirymu neu amnewid y gyfraith y mae awdurdod cenedlaethol perthnasol yn ystyried nad yw'n cynyddu'r baich rheoleiddio mewn maes pwnc penodol. Cyn gwneud penderfyniad i gydsynio i'r Rheoliadau, a oedd ystyriaeth Llywodraeth Cymru o'r Rheoliadau yn cynnwys asesiad o sut maent yn cydymffurfio â'r cyfyngiad hwn ac a oes unrhyw gynnydd posibl i'r baich rheoleiddio? Os felly, a fyddech chi'n ei rannu gyda'r Pwyllgor?**

Fel y nodir yn fy llythyr dyddiedig 1 Medi, bwriad y Rheoliadau hyn yw dim ond cywiro gwall technegol a wnaed gan offeryn diwygio blaenorol (OS 2020/1616). Mae hyn yn ymwneud â'r dyddiad y gellir defnyddio data i ailgyfrifo symiau hydrofflworocarbonau y gellir eu rhoi yn

gyfreithlon ar farchnad Prydain Fawr o 2024. Mae'r gwelliant yn ail-alinio y broses o roi’r gorau i ddefnyddio hydrofflworocarbonau y DU gydag ymrwymiadau blaenorol a wnaed o dan brotocol Montreal ac uchelgeisiau polisi cyfredol.

Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau, y bwriad cytun wrth adael yr UE oedd cadw sylwedd y Rheoliad F-nwy wedi Ymadael, gan gynnwys y broses i gyfrifo gwerthoedd cyfeirio HFC, cwotau a chyflymder y broses o roi’r gorau i’w defnyddio a nodir yn Rheoliad F-nwy yr UE. Mae'r gwelliant technegol a wnaed gan y Rheoliadau yn ail-alinio'r DU â'r bwriad polisi hwnnw.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

15 Medi 2023

Annwyl Julie,

Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio (Diwygio) 2023

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Medi 2023 mewn perthynas â'ch bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU osod Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio (Diwygio) 2023, a gafodd eu gosod gerbron Senedd y DU ar 4 Medi.

Yn ein cyfarfod ar 11 Medi 2023, buom yn trafod eich llythyr a'r manylion ynddo. Mae nifer o faterion yr hoffem roi sylw manylach iddynt.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb i'n cwestiynau, sydd wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r llythyr hwn, erbyn 28 Medi 2023.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Atodiad

1. Rydych yn nodi eich bod wedi cael llythyr gan y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Benyon, y Gweinidog Gwladol dros Fioddiogelwch a Materion Morol a Gwledig, yn gofyn am eich cydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau yn *Neddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023* (Deddf Cyfraith yr UE). Byddwch yn ymwybodol nad yw Deddf Cyfraith yr UE yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ofyn am gydsyniad gan Weinidogion Cymru cyn i Weinidog y DU arfer pŵer dirprwyedig mewn maes datganoledig o dan y Ddeddf honno.

   i. A fyddech cystal â chadarnhau a darparu manylion y broses gydsynio a ddilynwyd mewn perthynas â'r Rheoliadau.

   ii. A fyddech cystal â chadarnhau yr ymgynghorwyd â Gweinidogion Cymru ar delerau'r Rheoliadau fel rhan o'r strwythurau fframwaith cyffredin perthnasol, fel yr awgrymir ym Memorandwm Esboniadol drafft i'r Rheoliadau.

2. Er bod eich llythyr yn nodi bod y Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan baragraff 5(5) o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE, ein dealltwriaeth ni yw bod y paragraff hwnnw'n nodi'r weithdrefn seneddol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan bwerau amrywiol yn Neddf Cyfraith yr UE. Credwn fod y Rheoliadau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio'r pŵer 'dirymu a disodli' adran 14(2) yn Neddf Cyfraith yr UE. Nid yw'n ymddangos bod y Rheoliadau yn arwain at ddirymu neu ddisodli Deddf Cyfraith yr UE na'i gymhathu i'r llyfr statud domestig.. Yn eich llythyr rydych yn nodi bod y Rheoliadau yn cywiro gwall technegol a wnaed mewn offeryn diwygio blaenorol.

   i. A fyddech cystal â chadarnhau ein dealltwriaeth bod y Rheoliadau yn arwain at ddirymu neu ddisodli Deddf Cyfraith yr UE na'i gymhathu i'r llyfr statud domestig..

   ii. Cyn gwneud penderfyniad i gydsynio i'r Rheoliadau, a wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal unrhyw asesiad o'r pŵer penodol yn Neddf Cyfraith yr UE sy'n cael ei ddefnyddio i wneud y Rheoliadau?

   iii. Ein dealltwriaeth ni yw bod paragraff 5(5) o Atodlen 5 i Ddeddf Cyfraith yr UE yn rhoi'r dewis i Weinidog y DU ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu'r weithdrefn negyddol 'gwnaed'. Cyn gwneud penderfyniad i gydsynio i'r Rheoliadau, a wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal unrhyw asesiad o'r dewis o weithdrefn graffu y mae Llywodraeth y DU yn ei dilyn?

   iv. Byddwch yn ymwybodol bod y pwerau yn adran 14 o Ddeddf Cyfraith yr UE wedi'u cyfyngu i ddirymu neu ddisodli'r gyfraith y mae awdurdod cenedlaethol perthnasol yn ystyried nad yw'n cynyddu'r baich rheoleiddiol mewn maes pwnc penodol. Cyn gwneud penderfyniad i gydsynio i'r Rheoliadau, a oedd ystyriaeth Llywodraeth Cymru o'r

Rheoliadau yn cynnwys asesiad o sut y maent yn cydymffurfio â'r cyfyngiad hwn ac a oes unrhyw gynnydd posibl i'r baich rheoleiddiol? Os felly, a fyddech chi'n ei rannu â'r Pwyllgor?

Eitem 4.6

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder
a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

28 Medi 2023

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Hysbysiad Blaenorol) a Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2023.**

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor am y bwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Hysbysiad Blaenorol) a Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2023 ("y Rheoliadau") erbyn 26 Hydref 2023.

Rwyf wedi cael llythyr oddi wrth yr Arglwydd Beynon, y Gweinidog dros Fioddiogelwch a Materion Morol a Gwledig, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau. Caiff y Rheoliadau eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig drwy arfer y pwerau a roddir gan Erthyglau 5(3), 30(1), 40(3), 41(3) a 105(6) o Reoliad (EU) Rhif 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau diogelu rhag plâu planhigion. Mae Erthygl 2a (2) o Reoliad (EU) Rhif 2016/2031 yn darparu y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau o'r fath gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Diben y Rheoliadau yw diweddaru agweddau ar y Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol er mwyn cyflwyno'r newidiadau a ganlyn:

- Dadreoleiddio plâu cwarantin penodol ar gyfer Prydain Fawr, y mae'r Grŵp Risg Iechyd Planhigion (PHRG) wedi asesu nad ydynt yn bodloni'r meini prawf i fod yn bla cwarantin.
- Ychwanegu plâu cwarantin newydd ar gyfer Prydain Fawr, y mae'r PHRG wedi asesu eu bod yn bodloni'r meini prawf i fod yn bla cwarantin.
- Ychwanegu plâu cwarantin dros dro newydd ar gyfer Prydain Fawr, y mae'r PHRG wedi asesu eu bod yn bodloni'r meini prawf i fod yn bla cwarantin ar sail asesiad dros dro.
- Diweddaru gofynion mewnforio er mwyn ystyried newidiadau yn y deunydd a fasnachir.
- Cyflwyno newid a fethwyd mewn OS blaenorol.
- Ffurfioli hawddfraint er mwyn sicrhau bod gofynion mewnforio yn gweithio mewn gwirionedd.
- Cynnwys rhanddirymiad a oedd wedi cael ei gario drosodd fel cyfraith yr UE a ddargedwir ond sydd bellach wedi dod i ben ac y mae angen ei chynnwys yn neddfwriaeth Prydain Fawr.

Yn ogystal, bydd y Rheoliadau'n cyflwyno diwygiad er mwyn galluogi darpariaethau ym Model Gweithredu Targed y Ffin. Bydd y ddarpariaeth yn diwygio'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol er mwyn darparu eithriad, ar gyfer ffrwythau a llysiau penodol, i'r gofynion cyn hysbysu ar gyfer y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol.

Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, a bwriedir ei osod gerbron Senedd y DU ar 26 Hydref 2023. Daw mesurau brys yn y Rheoliadau i rym ar 17 Tachwedd a 24 Tachwedd 2023, a daw mesurau nad ydynt yn frys i rym ar 2 Mai 2024.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU osod y Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â maes datganoledig, ond maent yn effeithio ar fewnforion planhigion a chynhyrchion sy'n dod o blanhigion ledled Prydain Fawr. Mae llawer o'r newidiadau yn y Rheoliadau yn ymwneud â mewnforio planhigion a chynhyrchion sy'n dod o blanhigion. Mae'r rhan fwyaf o'r nwyddau hyn sy'n dod i mewn i Gymru yn dod trwy borthladdoedd yn Lloegr a byddent yn ddarostyngedig i'w deddfwriaeth fewnforio hwy. Gall cyflwyno Rheoliadau ar wahân yng Nghymru a Lloegr beri cynyddu'r pwysau ar yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, busnesau, masnachwyr a thyfwyr. Mae rheoleiddio ar gyfer Prydain Fawr yn ei chyfanrwydd yn sicrhau llyfr statud sy'n gydlynol a chyson lle mae'r rheoliadau'n hygyrch mewn un offeryn a lle nad oes perygl o ymwahaniad yn y ddeddfwriaeth ym Mhrydain Fawr. Yn ogystal, byddai gwneud Rheoliadau ar gyfer rhai darpariaethau o fewn yr OS hwn yng Nghymru yn unig yn debygol o effeithio ar y dasg o ddiwygio a chydgrynhoi deddfwriaeth iechyd planhigion ar ôl i Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir gael ei gymhathu ddiwedd 2023, yn ogystal ag effeithio ar y broses o hysbysu Sefydliad Masnach y Byd am y newidiadau.

Hoffem sicrhau'r Pwyllgor hwn mai polisi Llywodraeth Cymru, fel rheol, yw deddfu dros Gymru mewn perthynas â materion cymhwysedd datganoledig. Felly rwy'n rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Nid oes unrhyw ymwahaniad polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r mater hwn.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Llŷr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

01/01

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Huw Irranca Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15/09/2023

Annwyl Gadeirydd,

Ers imi gychwyn yn fy swydd fel Comisiynydd y Gymraeg ddechrau 2023 rwyf wedi bod yn cwrdd â phobl ar draws Cymru, yn unigolion, yn grwpiau cymunedol ac yn sefydliadau gwahanol i drafod sefyllfa'r Gymraeg. Rwyf wedi dyfnhau fy nealltwriaeth o waith a phwerau'r Comisiynydd ac wedi gweld sut mae'r gyfundrefn safonau wedi gwreiddio gan weld y cynnydd sylweddol sydd wedi bod mewn darpariaeth Gymraeg gan gyrff cyhoeddus trwy Gymru o'i herwydd. Mae llawer iawn eto i'w wneud fodd bynnag i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd.

Er nad yw'r Gymraeg yn ffocws penodol i waith y Pwyllgor yr ydych yn ei gadeirio mae'r meysydd y byddwch chi'n craffu arnynt yn effeithio'n benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Gyda hynny mewn golwg buaswn yn falch iawn o'r cyfle i gwrdd â chi i drafod fy mlaenoriaethau fel Comisiynydd a pherthnasedd y Gymraeg i'ch meysydd gwaith. A fuasai modd cysylltu â Cerian Davies, cerian.davies@cyg-wlc.cymru i drefnu amser sy'n gyfleus inni gael sgwrs os gwelwch yn dda.

Yn gywir

Efa Gruffudd Jones

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Eitem 5.2

Rebecca Evans AS,

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

22 Medi 2023

Annwyl Rebecca,

**Papurau tystiolaeth i gefnogi Cyllideb Ddrafft 2024-25**

Diolch yn fawr am eich llythyr ar 8 Medi.

Rwy'n ddiolchgar am y modd adeiladol yr ydych wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyllid ynghylch ffyrdd y gellir gwella tystiolaeth ysgrifenedig weinidogol ar gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn fy llythyr ar 23 Mehefin.

Rwy'n croesawu eich bwriad i gadarnhau pryd y bydd Gweinidogion yn darparu eu papurau tystiolaeth i bwyllgorau'r Senedd cyn cylch cyllideb 2024-25. Rwyf hefyd yn ddiolchgar y bydd Pwyllgorau'r Senedd yn cael cynnig briff technegol ar y Gyllideb Ddrafft.

O ran eich cais am arwydd clir gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr hyn fyddai'n cael ei ystyried yn hanfodol i'w gynnwys mewn papurau tystiolaeth weinidogol, ni fyddai'n briodol i mi ddarparu un rhestr o gynigion heb ymgynghori â Chadeiryddion y Pwyllgorau yn gyntaf.

Er fy mod yn gweld manteision o ran datblygu templed lefel uchel ar gyfer papurau tystiolaeth, ac er fy mod yn cefnogi cydweithredu rhwng pwyllgorau i osgoi dyblygu a gorgyffwrdd mewn meysydd ffocws yn ystod craffu ar y gyllideb,

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

gall fod yn anodd cyflawni dull cyson yn ymarferol, o gofio ei bod yn naturiol y bydd gan bwyllgorau flaenoriaethau a meysydd ffocws gwahanol.

Hoffwn hefyd warchod rhag datblygu templed a allai feithrin dull rhagnodol o ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig, a allai wanhau'r wybodaeth sydd ar gael i bwyllgorau unigol yn y pen draw wrth iddynt geisio dwyn penderfyniadau gwariant gweinidogol i gyfrif.

Mae'r anawsterau y mae Gweinidogion yn eu hwynebu wrth ddarparu manylion penodol ar gyfer pwyllgorau sy'n ymwneud â phob MEG yn ystod cyllideb 2024-25 yn enghraifft o hyn. Er fy mod yn cydnabod yr heriau a ddaw yn sgil amserlen cyllideb eleni, ni ddylai hyn rwystro Pwyllgorau rhag gofyn am wybodaeth fanwl yn ymwneud â phortffolios unigol gan fod hyn yn hanfodol i lywio sesiynau tystiolaeth cyhoeddus gyda Gweinidogion, yn enwedig pan fo'r amser i ymgynghori â rhanddeiliaid wedi'i gyfyngu.

Felly, rwy'n barod i archwilio ffyrdd y gellid datblygu templed, er fy mod hefyd yn cydnabod y gallai gymryd amser i sicrhau consensws ar y mater hwn a'i bod yn annhebygol y cytunir ar unrhyw newidiadau ar gyfer cylch y gyllideb sydd i ddod.

Rwy'n anfon copi o'r ymateb hwn i holl bwyllgorau'r Senedd sydd â diddordeb mewn craffu ar y gyllideb er mwyn hwyluso trafodaethau pellach, a byddaf yn codi'r mater hwn yng nghyfarfod nesaf Fforwm y Cadeiryddion ar 23 Hydref.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon